



‘Myn Pedr, ni wn pwy ydwyd’, ar drywydd Dafydd ap Gwilym

Dylan Foster Evans gyda Sara Elin Roberts

Ar hyd y degawdau, cyffroes calon sawl ymchwilydd gobeithlon wrth iddo weld cyfeiriad at ‘david ap gwilim’ mewn dogfen o’r bedwaredd ganrif ar ddeg. Ond er bod ambell enghraifft o’r enw hwnnw i’w chael tua’r cyfnod cywir, hyd yn hyn ni ddadleuodd neb fod gennym gofnod swyddogol sy’n enwi’r bardd o Geredigion. Byddai dod o hyd i gyfeiriad o’r fath yn bluen fawr yn het unrhyw un ohonom, ond wrth i ragor o gasgliadau o ddogfennau gael eu harchwilio’n fanwl, y mae’r gobaith hwnnw’n prysur gilio. Ni ddylem, er hynny, anobeithio’n llwyr. Cofiwn i Lawysgrif Hendregadredd—y llawysgrif sydd efallai’n cynnwys cerdd yn llaw Dafydd ei hun—fynd ar goll am genedlaethau cyn ei hailddarganfod ‘in an old bachelor’s wardrobe in a disused bedroom’ ym mhlasty bychan Hendregadredd ger Cricieth yn 1910 (Huws 2000: 66). Felly gall nad yw oes y gwyrthiau drosodd, ac y daw rhywun rywdro o hyd i gyfeiriad cyfoes at y mwyaf o feirdd y Gymru ganoloesol.

Yn wyneb absenoldeb cyfeiriadau o’r fath, dichon mai geiriau enwog David Johns (bl.1572–98), Llanfair Dyffryn Clwyd, yw’r dystiolaeth fwyaf cofiadwy sydd gennym am Ddafydd ap Gwilym:

Mi a welais. 1572. hen wraic a welsai un arall a fyssai'n ymddiddan a Dafydd ap gwilym. hirfain oedd ef a gwallt llaes melyngrych oedd iddo a hwnnw yn llawn cayau a modrwyau arian meddai hi. (BM 29, 334; GDG xli–xlii)

Er mor ddeniadol i'r dychymyg yw'r darlun hwn, ni raid ond ystyried y dyddiadau am ennyd i weld na all yr hyn a ddywed Johns am fardd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg fod yn gywir. At hynny, y mae'r darlun yn rhy ddeniadol, gan ei fod, chwedl Thomas Parry, 'braidd yn rhy debyg i'r hyn y "dylai" bardd fel Dafydd ap Gwilym fod' (GDG xlii).

Mewn gwirionedd, nid yw'n syndod nad oes gennym ragor o wybodaeth gyfoes am Ddafydd. Yn wir, y mae beirdd mawr eraill megis Iolo Goch a Lewys Glyn Cothi yn anweladwy yn y cofnod hanesyddol. Felly hefyd Guto'r Glyn tan yn ddiweddar iawn (Salisbury 2007: 1). Oni fu i Ddafydd ymladd fel milwr, neu ddal swydd, neu fynd i gyfraith, nid yw'n annisgwyl na chadwyd cofnod amdano (Gruffydd 1992: 425). Rydym yn ffodus, fodd bynnag, ei fod yn hanu o deulu uchelwrol, ac felly cadwyd ei ach inni mewn llawysgrif o'r unfed ganrif ar bymtheg. Mae bodolaeth yr ach honno o bwysigrwydd sylfaenol wrth inni geisio astudio cefndir Dafydd.

Bydd yr ysgrif hon yn canolbwyntio ar dair agwedd ar gefndir y bardd. Yn gyntaf, edrychir yn ofalus ar ach Dafydd a'r wybodaeth a gawn ganddi am hanes ei deulu. Yn ail, edrychwn ar yr unigolion a enwir yn ei farddoniaeth, boed yn gydfeirdd, yn noddwyr, yn gariadon, neu'n gydnabod mewn rhyw ffordd arall. Yn olaf, down â'r cyfan at ei gilydd, ynghyd â'r cyfeiriadau at ddigwyddiadau penodol yng nghanu Dafydd, i geisio, gorau y gallwn, bennu dyddiadau'r bardd.

Mae'r cwestiynau hyn oll wedi eu hystyried yn y gorffennol, a bydd y drafodaeth hon yn tynnu'n helaeth ar waith J.E. Lloyd, David Jenkins, Thomas Parry, D.J. Bowen, R. Geraint Gruffydd, ac eraill. At ei gilydd, y mae'r rhan fwyaf o'r ffeithiau a drafodir yn hysbys eisoes, er nad ydynt cyn hyn wedi eu dwyn oll ynghyd mewn un man. Ond fe wêl y cyfarwydd fod rhai cyfeiriadau newydd yma sy'n ychwanegu at ein darlun o gyd-destun hanesyddol Dafydd. Yn sgil y golygiad newydd hwn, a'r wybodaeth newydd sydd gennym am y beirdd a oedd yn gyfoeswyr i Ddafydd, y

mae'n briodol ein bod yn edrych o'r newydd ar y byd a'r bobl y byddai Dafydd ap Gwilym wedi eu hadnabod.

1. 'Da wyd a syberw dy ach': cefndir teuluol Dafydd ap Gwilym

Dechreuwn, yn syml iawn, gydag enw'r bardd. Ceir pedwar prif fath o ffynhonnell ar gyfer enw Dafydd. Yn gyntaf, y mae ei gyfeiriadau ef ato'i hun. Yn ail, y mae cyfeiriadau cyfoeswyr ato. Yn drydydd, daw'r priodoliadau yn y llawysgrifau hynny sy'n cynnwys ei waith. Yn olaf (o ran trefn ond nid o ran pwysigrwydd) daw'r copi o'i ach sydd wedi ei ddiogelu yn llawysgrif Peniarth 128 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Fe'i geilw Dafydd ei hun wrth ei enw cyntaf yn lled aml, a chyfeiria hefyd at ei dad dan yr enw Gwilym (125.27 a 155.8). Ceir ffurf lawnach ar enw'r tad gan Ruffudd Gryg, sy'n enwi 'Dafydd ... / Fab Gwilym Gam' yn ei gywydd ymryson cyntaf (23.3–4). Yr un ffurf a geir ym marwnad Iolo Goch i Ddafydd: 'Dafydd / ... / ... / Ap Gwilym Gam' (GIG XXI.1–4). 'Gwilym Gam' hefyd yw enw tad Dafydd mewn cyfres o englynion ansicr eu hawduraeth am grasu haidd (GDG 419).

Er hynny, anaml y cynhwysir epithet y tad wrth briodoli cerddi i'r mab. Er bod mân amrywiadau orgraffyddol a byrfoddol i'w cael, y mae'r llawysgrifau yn datgan yn gyson mai 'Dafydd ap Gwilym' oedd ei enw. Ar dro, ac yn arbennig yn y llawysgrifau cynharaf megis Peniarth 57, priodolir cerdd i 'Dafydd' yn unig. Ar y llaw arall, ceir enghreifftiau o briodoliadau sy'n rhoi rhagor o fanylion. Yn llaw'r bardd a'r copiyydd Hywel Dafi (bl. 1450–80) yn Peniarth 67 ceir y priodoliad anghyflawn canlynol ar waelod copi o 'Hwsmonaeth Cariad' (109): 'Dd' ap gl' gam ai'. Ceir ffurf lawnach eto ar yr enw yn y teitl enwog a geir ar ddechrau'r englynion 'I'r Grog o Gaer' (1) yn Llawysgrif Hendregadredd: 'Eglynion a gant dauid llwyd uab gwilim gam yr groc o gaer'. Awgrymodd Daniel Huws (2000: 221–2) y gall fod y copi hwn yn llaw'r bardd ei hun, ac os felly dyma dystiolaeth gadarn mai Dafydd Llwyd ap Gwilym Gam oedd enw 'llawn' y bardd.

Dylid nodi yma hefyd fod ffurf arall ar enw'r bardd i'w chael. Yng ngeiriadur John Davies, Mallwyd, *Dictionarium Duplex* (1632), cyfeirir at 'Dafydd Morgannwg, bardd Ifor hael 1400'. Yr awgrym felly yw mai bardd arall, nid Dafydd ap Gwilym, yw awdur y cerddi i Ifor Hael. Er i Thomas Parry deimlo y gallai'r awgrym hwn fod yn gywir (GDG xiv–xx), y mae tystiolaeth y llawysgrifau'n gryf mai Dafydd ap Gwilym yw awdur y cerddi i Ifor, ac felly ymddengys mai creadigaeth ddiweddarach yw 'Dafydd Morgannwg', ac mai'r un ydyw mewn gwirionedd â Dafydd ap Gwilym (Bowen 1958–9: 164–73; Jones 1960–1).

Heb amheuaeth, y dystiolaeth bwysicaf am deulu'r bardd yw'r ach a gadwyd yn Peniarth 128, t. 733, llawysgrif o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg yn llaw Edward ap Roger. Dyma hi fel y mae yng nghopi'r achyddwr hwnnw o sir Ddinbych:

daud ap gwilim gam ap gwilim
 ap gwrared ap gwilim ap gwrwared
 ap kyhelyn fardd ap gwyn fardd dyfed
 ap kynan gerdd gemell ap gwrangon
 feindroed larll kaer wrangon ag ar ei henw
 ef ir aeth y dref

Dyfynnir o'r ach hon gan J. Gwenogvryn Evans fel a ganlyn:

D. ap gwilim gam ap glm ap gwrwared ap glm ap gwrwared ap kyhelyn fardd
 ap gwyn fardd dyfed ap kynan gerdd gemell ap gwrangon feindroed larll kaer
 wrangon (RMW i, 797)

Mae'n anodd rhoi cyfrif am y ffurfiau amrywiol a gafwyd gan Gwenogvryn Evans, ond dyma'r ffurf ar yr ach a ddyfynnir gan Thomas Parry (GDG xxii).

Yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg, ychwanegwyd dau nodyn at enw'r bardd yn yr ach yn Peniarth 128, sef 'Dauydd ap Gwilym y prydydd hydi hwnn' a 'dd llwyd ap Glm gam'. Ymddengys ar yr olwg gyntaf fod yr ail nodyn yn arbennig o'r pwys mwyaf, gan ei fod yn cadarnhau enw llawn y bardd fel y'i ceir yn Llawysgrif Hendregadredd. Beth felly yw tarddiad y nodiadau hyn? Fel y cadarnhawyd gan Daniel Huws

(gohebiaeth bersonol), mae'r ddau yn llaw'r copiyydd a'r hynafiaethydd Robert Vaughan, Hengwrt (1591/2–1667). Bu Peniarth 128 yn ei feddiant, ac felly nid annisgwyl yw gweld ei law yn y llawysgrif honno. Ac er iddi adael y casgliad yn ddiweddarach, bu Llawysgrif Hendregadredd hithau yn llyfrgell Robert Vaughan yn Hengwrt. Y ffordd rwyddaf o esbonio cynnwys yr ail nodyn yw drwy dybio i Vaughan sylwi ar ffurf lawn yr enw yn y priodoliad i'r englynion 'I'r Grog o Gaer', a'i throsglwyddo i Peniarth 128. Os felly, nid yw tystiolaeth y nodyn yn Peniarth 128 yn annibynnol ar Lawysgrif Hendregadredd. Eto i gyd, y mae'r nodyn yn dyst i sylwgarwch deallus Robert Vaughan, gan na dderbyniwyd yr englynion yn derfynol i ganon gwaith Dafydd tan ail olygiad Thomas Parry o waith y bardd yn 1963 (GDG² xix, 556).

Lluniodd P.C. Bartrum ach y bardd yn seiliedig ar Peniarth 128, ond gan fanteisio ar lawysgrifau eraill sy'n cynnwys ach y teulu (ond nad ydynt yn enwi'r bardd ei hun):

Dafydd ap Gwilym Gam ap Gwilym (pr. Isabel ferch Llywelyn) ab Einion Fawr o'r Tywyn (pr. Tudo ferch Cadwgan Ddu ap Madog Fychan o Aber-porth) ap Gwilym (pr. merch i Syr Elidir Stackpole) ap Gwrwared (pr. Gwenllïan ferch Ednyfed Fychan) ap Gwilym (pr. Annes ferch Seisyll ap Llawrodd Dyfed) ap Gwrwared Gerdd Gemell (neu Gynnil) ap Cuhelyn Fardd (pr. Gwrangen Feindroed ferch Iarll Caerwrangon) ap Gwynfardd Dyfed (WG1 'Gwynfardd' 1, 2)

Cadarnheir llawer o fanylion yr ach gan y canu i gangen arall o'r teulu a drigai yn y Tywyn ym mhlwyf y Ferwig ger Aberteifi. Ymwelai Dafydd Nanmor yn gyson â'r plas hwnnw yn ail hanner y bymthegfed ganrif, a'i noddwr pwysicaf yno oedd Rhys ap Maredudd ab Owain ap Gruffudd ab Einion Fychan ap Gwilym ab Einion Fawr o'r Coed, disgynnydd uniongyrchol i daid Dafydd, Gwilym ab Einion Fawr. Olrheinia Dafydd Nanmor ei ach fel a ganlyn:

Adeil Rrys a dâl aur rrudd
A mawr adail Meredudd.
Owain, Gruffudd, ac Einionn,
A Gwilim Hen sydd glaim honn.

Einionn, Gwilim, a'i onnen,
Greiriav tir Gwrwaret Hen. (PWDN V.9–14)

Mae'r dystiolaeth achyddol felly'n bur dda, ond yr unig ffordd i'w harchwilio'n fanwl yw drwy geisio olrhain hanes yr unigolion a enwir ynddi drwy gyfrwng cofnodion swyddogol. (Ceir crynodeb o'r canfyddiadau mewn tabl achau ar ddiwedd yr ysgrif hon.)

Dyna'r union beth a wnaeth J. E. Lloyd yn 1935 gan ddefnyddio'r ach a gyhoeddaisid gan Gwenogvryn Evans. Ni lwyddodd i ganfod manylion am y ffigurau cynharaf yn yr ach, ond nid syn hynny, gan ei bod yn amlwg mai cymeriad chwedlonol yw Gwrangon Feindroed (boed yn wryw neu'n fenyw), ac ni ellir rhoi unrhyw goel ar yr honiad mai ar ôl Gwrangon yr enwyd Caerwrangon. Ni chafwyd gwybodaeth ychwaith am Wynfardd Dyfed, er yr awgrymwyd efallai iddo fod yn bencerdd i Rys ap Tewdwr (m. 1093) o Ddeheubarth (GMB 25). Ond gan ddefnyddio dogfennau canoloesol o arglwyddiaeth Cemais (bellach yng ngogledd sir Benfro), yn ogystal â chofnodion y llywodraeth Seisnig, llwyddodd Lloyd i ddangos bod modd cadarnhau cywirdeb y rhan o'r ach sy'n dilyn Cuhelyn Fardd, ac eithrio bod rhai enwau wedi eu colli ohoni. Gan hynny, yr ach gyflawn (fel y dengys Bartrum yntau) yw: 'Dafydd ap Gwilym Gam ap Gwilym ab Einion ap Gwilym ap Gwrwared ap Gwilym ap Gwrwared ap Cuhelyn Fardd' (Lloyd 1935–7: 1).

Yr aelod cynharaf o'r teulu y gellir ei adnabod yw Cuhelyn Fardd, gŵr sy'n fwyaf hysbys fel gwrthrych cerdd fawl gan fardd dienw rywdro tua dechrau'r ddeuddegfed ganrif. Golygwyd y gerdd hon gan R. Geraint Gruffydd a nododd bwysigrwydd Cuhelyn fel cyndad nifer o deuluoedd amlycaf de-orllewin Cymru. Cadwyd hefyd chwedl ddiweddarach am Cuhelyn mewn llawysgrif a gopiwyd gan David Thomas, Parc-y-pratt, ar gyfer yr hynafiaethydd George Owen, Henllys (1552–1613) (Jones 1953: 78–80). Ys dywed Gruffydd:

Tyfodd chwedlau gwerin amdano'n clodfori ei alluoedd fel gweledydd, ac yn honni iddo drwyddynt ennill Cemais yn etifeddiaeth a Gwrangen Feintroed, merch Iarll Caerwrangon, yn wraig (aeth y chwedl yn rhan o'r ach yn ogystal).

Er bod manylion y chwedl yn sicr yn ddychmygol, gall ddiogelu atgof i Wynfardd gymodi â'r Normaniaid, ac yn fwyaf arbennig â theulu Fitzmartin, a goncrodd Gemais gyntaf dros dro yn 1093 ac wedyn yn derfynol c.1110–15, ac iddo dderbyn ei awdurdod ar eu llaw. (GMB 25)

O ran gwybodaeth ffeithiol, ymddengys mai difudd yw ceisio olrhain ach Cuhelyn ei hun, er bod awgrym yn y gerdd ei fod yn hanu o ryw Aedan neu Aeddan, sef o bosibl yr Aeddan ap Blegywryd a laddwyd gan Lywelyn ap Seisyll yn 1018 (GMB 25). Gall fod Dafydd yn cyfeirio ato pan enwa 'ysgwyd Guhelyn' (sef 'tarian Cuhelyn') yn 'Y Cleddyf' (71.39), ac mae cyfeiriad arall posibl ato yn 'Yr Eos', pan elwir yr aderyn hwnnw'n 'chwaer Guhelyn' (155.43). Ond heb wybodaeth bellach ni ellir bod yn hyderus o'r uniaethiad hwn.

Er na lwyddodd i ganfod cyfeiriadau cyfoes at Guhelyn ei hun, darganfu Lloyd gryn wybodaeth am ei ddisgynyddion, yn arbennig diolch i'r casgliad a elwir 'The Register Book of the Barony of Kemeys' a gyhoeddwyd yn 1861 yn y gyfrol *Baronia de Kemeys* dan nawdd y Cambrian Archaeological Society. O gyfnod Nicholas Fitzmartin (m. 1260) y daw'r cyfeiriadau perthnasol cynharaf, ac awgrymir gan Dillwyn Miles fod perthynas glòs wedi bodoli dros sawl cenhedlaeth rhwng disgynyddion Cuhelyn a theulu Fitzmartin, arglwyddi Cemais (1997: 24). Mewn dogfen a ddaeth o law Nicholas Fitzmartin tua chanol y drydedd ganrif ar ddeg, cyfeirir 'at feddiannau gwehelyth Gwrwared ap Cuhelyn ac eiddo Llywelyn ap Cuhelyn yn yr Eglwys Wen, Melinau, Pen Cellifor a Chilgwyn, ac estynnir hwynt i gynnwys llethrau Mynydd Preselau sydd yn gwynebu'r gogledd o Fwlch y Gwynt i Flaen Banon' (Lloyd 1935–7: 1; *Baronia*, 48). Gwelir i Wrwared a Llywelyn fod â thiroedd sylweddol yn eu meddiant; awgrym Thomas Parry yw mai tua 1150–70 oedd cyfnod eu gweithgarwch (GDG xxv).

Ymddengys fod gan Gwrwared hefyd gysylltiadau barddol, yn ôl ei llysenw yn y fersiwn o'r ach a geir gan Bartrum, sef 'Gerdd Gymell' (WG1 'Gwynfardd Dyfed' 1). Enwir ei fab ef, Gwilym, mewn llythyr maith a gyfansoddwyd gan Gerallt Gymro tua 1195 (*Opera*, 320). Fel y noda Lloyd:

cwyna Gerallt Gymro yn dost fod cabidwl Tŷ Ddewi mor esgeulus o hawliau'r Eglwys, ond dywed fod Duw weithiau'n dial ei cham. Felly y digwyddodd i un Gwilym 'Abwurwaret', a fu'n euog o ymosodiad anfad ar eiddo Gerallt ym Mathry; o fewn tridiau neu bedwar, daeth y gollfarn arno am ei haerllugrwydd. (1935–7: 2).

Ai cyfeirio at farwolaeth Gwilym a wna Gerallt yma? Mae'n anodd gwybod. Yn sicr, y mae Mathri, lle bu'r ymosodiad honedig, yn ymddangos yn bell o diroedd Gwilym, ond mae'n anodd gwybod pa mor eang oedd ei ddaliadau erbyn y cyfnod hwn (Lloyd 1935–7: 2).

Mae mab Gwilym ap Gwrwared ap Cuhelyn Fardd, sef Gwrwared ap Gwilym, yn dod â ni i gyswllt â theulu pwysig arall, gan y dywed yr achau iddo briodi Gwenllian, ferch Ednyfed Fychan (m.1246), distain Llywelyn Fawr (GDG xxv). Eu mab hwy oedd yr ail Gwilym ap Gwrwared. Ef oedd cwnstabl Cemais yn 1241 pan oedd Nicholas Fitzmartin yn arglwydd, a bu'n dyst i chwech o leiaf o siarteri'r olaf (Lloyd 1935–7: 2; *Baronia*, 54; Miles 1997: 24). Ceir cyfeiriadau sy'n dangos iddo ymuno yn 1244 â chyrchoedd arglwyddi Mers y de-orllewin yn erbyn Maredudd ab Owain o Geredigion (Edwards 1935: 48), ac iddo dderbyn gan y brenin yn 1250 diroedd yng Ngheredigion (CCR 1226–57, 347). Yn haf 1252 yr oedd yn swyddog i'r brenin dros diroedd Maelgwn Ieuan, a chafodd ganiatâd y brenin i gymryd ysbail gan wŷr Elfael am iddynt hawlio porfeydd Elenid (Jones 1941: 206; 1955: 244). Ef oedd beili'r brenin yn Llanbadarn o 1246 i 1256 (E.G. Bowen 1979: 43). Roedd yn un o genhadon y brenin yn ei ymwneud â de Cymru yn 1258 (CR 1259–59, 467), ac erbyn 1260 ef oedd cwnstabl Aberteifi, 'gydag addewid o £100 gan y tywysog Edward er ei gynorthwyo i amddiffyn y lle' (Lloyd 1935–7: 2). Fel y dengys y cofnod perthnasol, honnai Gwilym nad oedd ond wedi derbyn deg pwys o halen yn dâl am ei waith (CDRI 1252–84, 108). Gwelir maint ymddiriedaeth yr awdurdodau Seisnig ynddo yn y ffaith mai ef, ynghyd ag arglwydd Talacharn, oedd i weithredu ar ran y brenin yn ne Cymru yr hyn a drefnwyd yng Nghytundeb Trefaldwyn yn 1267 (CPR 1266–72, 114). Gwelir felly fod Gwilym ap Gwrwared yn wŷr a chanddo ddylanwad mawr yn ne-orllewin Cymru, a gall mai ef oedd y cyntaf o'r teulu i fod â chysylltiad uniongyrchol â Llanbadarn Fawr, y

plwyf a fyddai'n gartref i'w or-orwyr Dafydd ap Gwilym. Bu'n briod nifer o weithiau, a chafodd nifer o blant, gan gynnwys Einion a Gwrwared.

Bu Einion a Gwrwared yn dystion i siarteri a luniwyd ar gyfer teulu Fitzmartin o 1273 ymlaen (Miles 1997: 24–5; *Baronia*, 50). Priododd merch Gwrwared, Nest Fechan, â Gruffudd ap Syr Hywel ap Gruffudd ab Ednyfed Fychan, a hi oedd mam Syr Rhys ap Gruffudd (WG1 'Marchudd' 14). Ond Einion (a elwir Einion Fawr o'r Coed yn achau Bartrum) oedd yr amlycaf o'r meibion, er ei fod yn eisiau o'r achau fel y'u ceir yn Peniarth 128. Fe'i rhestrir fel deiliad tir yn Emlyn ac Is Aeron (efallai yn sgil gwrthryfel Rhys ap Maredudd; GDG xxvi; Lewis 1923–5: 68), ac fel cwnstabl Castellnewydd Emlyn tua diwedd y 1280au (Edwards 1935: 140). Roedd hefyd yn un o'r ddau brif drethwr yn Nhrefdraeth yn 1292 (Jones 1948–50: 220).

Dilynwyd Einion yntau gan ei feibion. Mae'r cofnod 'De Willelmo et Gruffith' filiis et heredibus Aniani ab Willim' sy'n ymwneud â chwmwd Emlyn yn 1301 yn dangos i Wilym a Gruffudd etifeddu gan eu tad erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg (Lewis 1923–5: 68). Ynghyd â'r tiroedd yn Emlyn Uwch Cuch dalient diroedd yn Is Coed ger Aberteifi (Lewis 1923–5: 72), a'r cwbl 'o rodd y brenin ar delerau hynod o ffafriol' (Lloyd 1935–7: 2). Roedd y teulu erbyn hyn yn gysylltiedig â'r Tywyn, trwy briodas Einion Fawr â merch Cadwgan Ddu o'r Tywyn (er y dywed rhai achau mai Gwilym a'i priododd, GDG xxvii).

Ymddengys mai mab Einion Fawr (a thaid Dafydd ap Gwilym) oedd y Gwilym (neu Wiliam) ab Einion a benodwyd gan Edward II yn gwnstabl castell Aberteifi (17 Ebrill 1326), pan ofnid y byddai'r Frenhines Isabella yn ymgyrchu i gipio'r deyrnas. Roedd Gwilym cyn hynny wedi deisebu'r brenin a'i gyngor yn gofyn am gael cadw'r castell gan ei fod wedi mynd i gryn gostau ynglŷn ag ef yn ystod blynyddoedd cythryblus y 1320au cynnar. Dyddir y llythyr hwnnw i 1328 gan William Rees, ond i c.1324 gan gatalog ar-lein yr Archifdy Cenedlaethol (Rees 1975: 256; Special Collections 8/154/7680). Fe'i gorchmynnwyd i ildio'r castell ar 22 Hydref 1328, a gwnaeth hynny wythnos yn ddiweddarach. Ymhlith y rhai a aeth yn feichiafon drosto ar gyfer y swydd oedd ei fab Einion a Rhys ap Gruffudd, mab ei gyfnither (gw. isod).

Ceir cofnodion hefyd i Wilym dalu am les melin Llansanffraid yn 1307–8, 1314–15 a 1317–8 (PWLMA 208).

Gelwir Einion, mab Gwilym, yn Einion Fychan gan Bartrum, er nad yw'r 'Fychan' i'w gael gan amlaf yn y cofnodion. Ef oedd *bedellus* (neu ringyll) Gwynionydd Uwch Cerdin yn 1315–18 a 1319–20, a gwelwyd eisoes iddo fynd yn feichiafon dros ei dad Wilym ab Einion, cwnstabl castell Aberteifi, yn 1326. Roedd yn ffermio tiroedd yn Is Coed Is Hirwen cyn 1325 ac ar 23 Chwefror 1335 cafodd stad o'r enw 'Le Treferret' yn ddiolch am ei wasanaeth yn yr Alban (PWLMA 513); dichon mai o dan ei berthynas Rhys ap Gruffudd (gw. isod) y bu'n gwasanaethu. Bu'n rif neu feili Gwynionydd Uwch Cerdin yn 1335–6. Gall hefyd mai ef oedd yr Einion Fychan a oedd yn un o'r swyddogion a oedd yn gyfrifol am godi milwyr o Dde Cymru ar ran y brenin yn 1346 (Edwards 1935: 237).

Ymddengys mai Einion hefyd oedd awdur deiseb i'r brenin a'i gyngor yn gofyn am adfer perchnogaeth hanner cwmwd Is Coed Is Hirwern i'w feddiant ef fel etifedd ei hen daid. Cyhoeddwyd y ddogfen hon gan William Rees, ond dan yr enw 'Eynyon ab Jevan' (er iddo gydnabod ei bod wedi ei mynegeoio dan yr enw 'Eynyon ap Gwilym'), gan gynnig 'William ap G.....w' ar gyfer enw'r hen daid, a oedd yn anodd ei ddarllen yn y ddogfen Ffrangeg wreiddiol (1975: 134–5). Awgrymodd Rees hefyd ei bod yn perthyn i'r cyfnod 1317–21. Fodd bynnag, y mae catalog ar-lein yr Archifdy Cenedlaethol (Special Collections 8/89/4450) yn nodi enw'r deisebwr fel 'Eynyon ap Gwilym' ac enw'r hen daid fel 'William ap [Gourwaret]'. Os felly, diau mai Einion ap Gwilym ab Einion ap Gwrwared ap Gwilym ap Gwrwared, ewythr Dafydd, yw'r deisebwr, er mai hen hen daid iddo oedd Gwilym ap Gwrwared. Ymddengys fod hynafiad Einion wedi trosglwyddo tir i ŵr o'r enw Roger Mortimer am gyfnod ei oes, ond nad oedd y tir wedi ei ddychwelyd i'r teulu wedi marwolaeth Mortimer. Bwriad Einion ap Gwilym oedd hawlio'r tir hwn yn ei ôl. Roedd eisoes wedi ceisio gwneud hynny unwaith, yng nghyfnod Edward II, ond bryd hynny cefnogodd ustus De Cymru, Roger Mortimer (1287–1330), achos ei berthnasau Mortimer. Awgryma'r catalog gan hynny y dylid dyddio'r ddeiseb i tua 1330, yn sgil cwmp Mortimer. Ni wyddys ei chanlyniad, ond mae'n gofnod diddorol o wrthdaro rhwng teulu Dafydd ac

awdurdodau Seisnig yn ystod oes y bardd ei hun. Pwysleisiwyd droeon ffyddlondeb teulu Dafydd i'r Goron ac i arglwyddi Cemais, ond dyma dystiolaeth bwysig i ddangos nad oedd eu perthynas â'r Saeson o fantais iddynt bob tro.

Mae tystiolaeth Peniarth 128 yn datgan mai mab i Wilym, ac felly brawd i Einion (Fychan), oedd Gwilym Gam, tad Dafydd. Nid yw ei enw i'w gael mewn unrhyw gofnodion swyddogol, a chydag ef rydym yn colli golwg ar hanes teulu Dafydd. Mae'n bosibl fod Gwilym yn dioddef o anabledd o ryw fath, fel yr awgryma ei enw. Dywedir yn aml ei fod yn gefngrwm, ond awgrymodd Gerald Morgan mai llygaid croes oedd ganddo (1995: 29). Er nad enwir hi yn Peniarth 128, ymddengys mai enw ei wraig oedd Ardudful, gan fod Gruffudd Gryg yn cyfeirio at Dafydd fel 'mab Ardudful deg' yn ei ail gywydd ymryson (25.48; Bowen 1994–5: 365–6, 1995: 2–4). Gan fod Dafydd yn galw Llywelyn ap Gwilym (a drafodir isod) yn 'ewythr' ac ef ei hun yn 'nai' iddo, y mae'n dra phosibl ei bod yn chwaer i Lywelyn. Ond gan fod ystyr 'ewythr' a 'nai' yn ehangach yn y cyfnod hwn nag y mae heddiw, gall mai'r ffaith eu bod ill dau'n disgyn o Ednyfed Fychan (gw. uchod) sy'n esbonio defnydd Dafydd o'r termau hyn (Bowen 1994–5: 365–6; 1995: 2–4). Fodd bynnag, canfu P.C. Bartrum dystiolaeth yng nghasgliad David Edwardes o achau (College of Arms Protheroe MS v, t. 45) fod Llywelyn ap Gwilym yn frawd i fam Dafydd (dyfynnir yn Gruffydd 1979–80: 99–100 n2), er y gall wrth gwrs mai dyfaliad diweddarach yw hynny. Teg sylwi hefyd fod nifer o unigolion â'r cyfenw 'Cam' i'w cael yn ardal Aberystwyth ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg, rhai ohonynt ag enwau cyntaf Saesneg ac eraill ag enwau Cymraeg (Bowen 1995: 2–3). Ond nid oes modd profi bod cysylltiad rhyngddynt a theulu Dafydd.

Gwelir felly mai anodd yw dilyn trywydd teulu Dafydd ar ôl cenhedlaeth ei dad. Fodd bynnag, mae traddodiad cryf sy'n nodi mai Brogynin, gynt ym mhlwyf Llanbadarn Fawr, oedd cartref y bardd. Daw'r cyfeiriad cynharaf o'r fath mewn englyn yn Peniarth 53, llawysgrif sy'n dyddio o ddiwedd y bymthegfed ganrif:

naw ygain mlynedd yyn maithin
davydd ydwyd tal iesin
jc genid ymro gynin

brydudd au guwydd val gwin (GDG xxxi)

Dyma destun diweddaedig:

Naw ugain mlynedd cyn meithrin Dafydd
Y dyfod Taliesin
Y genid ym Mrogynin
Brydydd â'i gywydd fel gwin. (Gruffydd 1992: 426)

Saif Brogynin nid nepell o bentref Penrhyn-coch yng Ngheredigion, a cheir yno adeilad a fu unwaith yn dwlc mochyn ond a elwir yn draddodiadol 'Tŷ Dafydd ap Gwilym' (Hague 1952–5: 277). Roedd murddun ar y safle (Jenkins 1992: 11), a thua 1935 aed â darn o blastr addurnedig oddi yno i'r Amgueddfa Genedlaethol (Jenkins 1992, 32–3; Peate 2004 [1944]: 169 a phlât 76; Bowen 2003: 209–10). Barnai D.B. Hague fod y plastr hwnnw'n perthyn i'r unfed ganrif ar bymtheg neu'r ganrif wedyn, er nad oedd yr adeilad ei hun yn ymddangos yn hŷn na'r ddeunawfed (1952–5: 277–8). Mae awgrym felly y gallai fod adeilad cynharach ar yr un safle, a phwy a wŷr nad yr adeilad hwnnw oedd cartref y bardd ei hun? Yn sicr, fel y dengys 'Taith i Garu' (93), roedd gan Ddafydd wybodaeth fanwl iawn am union ardal Brogynin.

Mae cerddi Dafydd yn dangos iddo deithio'n helaeth, ac mae'n amlwg nad oedd yn treulio'r cyfan o'i amser ym mhlwyf Llanbadarn Fawr. Ac enwi rhai lleoedd yn unig, dengys y cerddi i Ifor Hael ei gysylltiad â Morgannwg (11–17); canmolodd y grog yng Nghaerfyrddin (1); lluniodd foliant i Niwbwrch ym Môn (18); roedd yn gyfarwydd â'r daith o dde i ogledd Cymru (51, 129); gwyddai am gastell Caernarfon (98.27) a chadeirlan Bangor (127.6); roedd yn gyfarwydd â'r lleianod yn Llanllugan, Cedewain (43.9–10); ac os ef oedd awdur 'Yr Eos' (155) a 'Penwisg Merch' (156) gwyddai hefyd am Faelor Gymraeg. Ymuniaethai'n arbennig ag ardal ei gyndeidiau yn Nyfed, a gofynnodd i Ruffudd Gryg anfon neges ato i 'Bryderi dir' (26.32) gan ychwanegu mai 'Henw fy ngwlad yw Bro Gadell' (26.33). Ystyriai rhai beirdd diweddarach mai Glyn Teifi, ardal Llywelyn ap Gwilym (cerddi 5 a 6), oedd bro'r bardd (Bowen 1986: 7). Mae'n anodd gwybod a oedd yn 'glerwr' o ran bywoliaeth, ond yn sicr yr oedd yn deithiwr cyson.

Mae hefyd sawl traddodiad ar gael am fan ei gladdu. Y dystiolaeth enwocaf yw cywydd Gruffudd Gryg i'r ywen uwch ei fedd 'Ger mur Ystrad Fflur a'i phlas' (GDG 429–30). Wrth gwrs, nid amhosibl mai ffug farwnad yw hon. Ond abaty Ystrad-fflur yw lleoliad mwyaf tebygol ei fedd, ac nid yw'n amhosibl ei fod wedi derbyn peth addysg eglwysig yno pan oedd yn fachgen (cymh. 99.37n). Ond y mae abaty Talylychau yntau'n cystadlu am y fraint o hawlio ei fedd (Bromwich, Parry a Bowen 1984: 14–16; Bowen 1984: 7–8).

Pwy a oedd yn bresennol yn angladd Dafydd nid oes wybod, ac nid oes dystiolaeth iddo briodi na magu teulu. Ni hawliai neb mewn cenedlaethau diweddarach eu bod yn disgyn ohono. O ganlyniad i'n diffyg gwybodaeth am y bardd 'go iawn', yn y dychymyg poblogaidd aeth hwnnw'n un â'r cariad penrhydd a gwrthodedig a ddarlunnir mewn modd mor ysbrydoledig yn y farddoniaeth.

2. 'A'i gwin a'i gwerin a'i gwŷr': cariadon, noddwyr a chydabod

Heb amheuaeth, yr unigolion a gaiff y sylw mwyaf yng ngwaith Dafydd yw ei gariadon. Yn wir, cymaint oedd eu hapêl nes bod straeon amdanynt i'w cael yn gyffredin yn y cyfnod modern cynnar, ac olion hynny i'w gweld ar adegau yn nheitlau'r cerddi. Dadleuodd Ifor Williams mai 'teipiau' oedd Morfudd a Dyddgu fel ei gilydd (DGG² xxvi–xxvii), ond y mae'r dystiolaeth bellach yn gryf o blaid cymryd eu bod yn ferched o gig a gwaed (er nad yw hynny'n golygu bod y disgrifiadau o'u perthynas â Dafydd yn cyfleu unrhyw wirionedd).

Cariad pwysicaf Dafydd oedd **Morfudd**. Cadwyd oddeutu tri dwsin o gerddi iddi, a chyfeiria Gruffudd Gryg ati yn llinell olaf ei gywydd ymryson cyntaf (23.60). Yn wir, awgrymodd R. Geraint Gruffudd fod y rhan helaethaf o'r cerddi nad ydynt yn enwi'r ferch yn benodol hefyd wedi eu cyfansoddi i Forfudd (Gruffydd 1992: 436, 439–40). Os felly, mae dros bedwar ugain o gerddi iddi wedi goroesi. Fel y dangosodd Thomas Parry (GDG xlv–xlvi), y mae Dafydd yn ei lleoli'n gyson yng

Ngheredigion, ac ym mhlwyf Llanbadarn Fawr yn benodol, fel y dengys 'Y Don ar Afon Dyfi' (51) a 'Taith i Garu' (93) yn arbennig.

Un awgrym yn unig a gawn gan Ddafydd am enw ei thad. Yn y cywydd 'Y Cariad a Wrthodwyd', gelwir hi'n 'Morfudd ferch Fadawg Lawgam' (118.5). Er i Ifor Williams awgrymu y gall mai ansoddair a ddefnyddiwyd yn unig er mwyn y gynghanedd lusg oedd 'lawgam' (DGG² xxvii), go brin y byddai Dafydd yn defnyddio ansoddair mor benodol ei ergyd heb unrhyw reswm. Mae'r ansoddair *llawgam* yn air digon prin. Fe'i ceir yn fersiwn Llyfr Coch Hergest o *Frut y Tywysogyon* yn yr enw 'Rotpert Lawgam', ond nid yw hynny ond cyfieithiad o ffurf lygredig ar yr enw Ffrangeg Robert Courtemain (Jones 1955: 88, 288). Fel arall, ni chafwyd enghraifft o *llawgam* yn rhan o enw personol, ac nid yw Madog Lawgam yn ymddangos yn yr achau a gyhoeddwyd gan P.C. Bartrum. Ond digwydd *llawgam* sawl tro mewn enwau lleoedd ym mhlwyf Llandyfriog, Ceredigion. Enwir 'Dyffryn Llawgam', 'Dolau Llawgam' a 'Glan Llawgam' mewn dogfennau o'r ail ganrif ar bymtheg ymlaen (Archif Melville Richards), ac ymddengys felly mai enw ar nant oedd Llawgam. Ond mae'n amhosibl gwybod a oes cysylltiad â'r Madog Lawgam a enwir gan Ddafydd.

Cyfeiria Dafydd at Forfudd yn aml fel 'Morfudd Llwyd', a gwna hynny'n arbennig yn llinell olaf cywydd (105, 108, 113, a 114). Dadleuodd Thomas Parry y gall fod y 'Llwyd' hwnnw yn gyfenw teuluol, ac felly mai 'Madog Llwyd' fyddai enw ei thad (GDG xlvi). Cafwyd dadl nid annhebyg gan D. J. Bowen a gynigiodd fod Dafydd yn awgrymu yn y cywydd 'Llw Morfudd' (105) iddo ef a Morfudd dyngu llw priodasol y naill i'r llall. Os felly gall fod Morfudd wedi cymryd 'Llwyd' yn gyfenw, gan mai 'Dafydd Llwyd ap Gwilym Gam' oedd enw cyflawn y bardd (1981–4: 188). Ond byddai cyfenw sefydlog o'r fath yn anarferol iawn yn y cyfnod hwn. Mae T.J. Morgan wedi dadlau na fyddai'r ansoddair *llwyd* yn treiglo wedi enw personol pan gyfeiriai at bryd a gwedd, er ei fod yn gwneud hynny pan fo ganddo'r ystyr 'sanctaidd' (1952: 115). Gwell felly dderbyn y dehongliad syml o'r cyfeiriad yn 'Y Cariad a Wrthodwyd' a chymryd mai Madog Lawgam oedd enw'r tad, ac i Forfudd gael ei galw'n 'llwyd' gan ei bod yn olau ei phryd.

Yn ogystal â'i thad, cawn hefyd wybod pwy oedd gŵr Morfudd; nid Dafydd mohono, wrth gwrs. Yn llinell olaf y cywydd 'Ddoe', cyferchir Morfudd fel a ganlyn: 'Aha! wraig y Bwa Bach' (110.40). Enwir y gŵr hwn hefyd yng nghywydd 'Y Gwynt', pan ddywedir: 'Nac ofna er Bwa Bach' (47.16). Mae'n amlwg felly mai llysenw yw '**Bwa Bach**' ar ŵr Morfudd. Gan amlaf cymerir mai crwca yn y cefn sy'n esbonio'r enw hwn (GDG I), ond awgrymodd David Jenkins iddo dderbyn y llysenw am mai ef oedd gwneuthurwr bwâu yr ardal (1992: 35–6). Bid a fo am hynny, mae'n glir nad person dychmygol mohono, gan y darganfu Jenkins (drwy law E.A. Lewis) ei enw (neu fersiwn ohono) mewn cofnod am achos llys yn Aberteifi yn 1344 (Jenkins 1935–7: 144–5):

Cyhuddid Howel ap Gronow ap Meilir o flaen Gilbert Talbot a'i gyd-ustusiaid yn nhref Aberteifi, Gorffennaf 11, 1344, o ddwyn cwpan arian gwerth wythswllt oddiar Robert le Northern—bwrtais o Aberystwyth—ar ddydd Llun y Sulgwyn 1342. Addefai ei euogrwydd ac erfyniai ar i'r llys ganiataú iddo dalu iawn yn ôl y gyfraith Gymreig. Caniatawyd hyn, a gosodwyd swm yr iawn yn 40p.—i'w dalu ar chwe thaliad cyfartal cyn pen tair blynedd. Rhoddir enwau nifer o wŷr a aeth yn feichiafon drosto, ac yn eu mysg ceir: Gronow ap Meilyr leuan Lloyd ap leuan voyaf Robert de Skydemore leuan ap David Goz ... Howel ap Gwilym Seys Ebowa baghan Trayhayan ap Mereduth. (Jenkins 1935–7: 145)



Cyfeiriad at 'Ebowa baghan', drwy garedigrwydd yr Archifdy Cenedlaethol, Llundain (PRO Just 1/1151 m.3)

Gellir bod yn hyderus fod 'Ebowa baghan' yr ysgrifydd yn ymdrech i drawsysgrifio'r enw 'Y Bwa Bychan'. Dyma brawf felly fod gŵr o'r enw Y Bwa Bychan yn bodoli, ac roedd yn byw, y mae'n debyg, yn Aberystwyth neu'r cyffiniau. Diau, gan hynny, mai ef yw Bwa Bach, gŵr Morfudd. Nid oedd Jenkins yn siŵr ai enw cyflawn oedd Y Bwa Bychan, ynteu ffugenw ar yr Hywel ap Gwilym Sais a enwir o'i flaen. Ond mae enw'r Bwa Bychan yn digwydd eto pan gofnodir iddo weithredu ar ran un o swyddogion cwmwd Perfedd yn 1339–40 (PWLMA 453). A diau mai ei fab ef yw'r 'Maredudd ap Ybowa Baghan', a enwir yn *bedellus* (neu ringyll) yng nghwmwd Genau'r Glyn yn 1357–8 (PWLMA 438). Fel arall, nid oes unrhyw dystiolaeth am y Bwa ei hun, ac ar wahân i'r hyn a ddywed Dafydd, nid oes dystiolaeth gyfoes o'i berthynas â Morfudd.

Rhaid nodi, fodd bynnag, fod o fewn rhyw filltir i'r de-orllewin o Frogynin fferm o'r enw Cwm Bwa (SN 650837), a gall fod cysylltiad rhwng y lle hwn a'r Bwa Bach fel yr awgrymodd David Jenkins (1992: 15). Mae'n rhaid ei fod yn lle o gryn bwys ar un adeg, gan y nodir ef ar fapiau cynnar Christopher Saxton (1579) a John Speed (1611) (Gruffydd 1992: 430). Cyfeirir at Gwm Bwa mewn llinell a ddefnyddiodd Wiliam Cynwal (rhywdro cyn 1587) i enghreifftio cynganedd sain o gyswllt: 'A mab i gwm Bwa Bach' (Williams a Jones 1934: 188). Nid oes mwy na hynny o gyd-destun i'r llinell, ond mae'n demtasiwn i'w chymryd yn awgrym mai Cwm Bwa Bach oedd enw llawn y man a elwir erbyn heddiw yn Gwm Bwa, a bod cysylltiad uniongyrchol rhyngddo a Bwa Bach Dafydd ap Gwilym.

Cymeriad arall a gysylltir â Morfudd yw **Cynwrig Cinnin**, a enwir yn y cywydd 'Gwallt Morfudd' (114.27). 'Cynwrig Cynin' yw'r ffurf ar yr enw a geir yn GDG, gan awgrymu cyswllt â Brogynin, cartref Dafydd yn ôl y traddodiad (gw. uchod). Ond mae'r llawysgrifau o blaid *Cinnin*, sydd, mae'n debyg, yn ffurf amrywiol ar *cinnyn* 'dernyn, cerpyn, cadach' (114.27n). Mae Dafydd yn cymharu gwallt Cynwrig yn anffafriol â gwallt Morfudd, gan ei alw'n 'eiddig addef' ('y gŵr eiddig cydnabyddedig', 114.33). Yr awgrym felly yw bod Cynwrig yn wŷr i Forfudd, er nad yw hyn yn gwbl sicr. Os felly, mae'n bosibl mai Cynwrig oedd enw 'iawn' y Bwa Bach, a bod 'Cinnin' yn lasenw pellach arno (er na raid bod *cinnin* yn rhan sefydlog o'i enw). Posibilrwydd llai tebygol yw mai gŵr o briodas arall ydyw. Ond erys ansicrwydd ynglŷn â'r gŵr hwn, ac union natur ei berthynas â Morfudd.

Mae'r dystiolaeth am gartref gwreiddiol Morfudd yn deillio i raddau helaeth o gywydd na ellir bod yn sicr o'i awduraeth. Gelwir Morfudd 'Y fun o Eithinfynydd' yn y cywydd o'r un enw (157.1). Ond roedd Thomas Parry yn amau nad Dafydd oedd awdur y gerdd hon (GDG 490), er i Eurys Rowlands ddadlau i'r gwrthwyneb (1960–1: 107). Nid yw Williams (2001: 541) yn anghytuno â Rowlands, ond mae'r golygiad presennol yn tueddu i rannu barn Parry. O ran Eithinfynydd ei hun, gellir nodi dau fan o'r enw. Mae'r naill ger Llanuwchllyn ym Mhenllyn (SH 859293), a'r llall ger Tal-y-bont yn Ardudwy (SH 601216) (Williams 2001: 541). Mewn rhôl achau yn y Llyfrgell

Genedlaethol (NLW Roll 250) a luniwyd gan Robert Vaughan o Hengwrt, nodir bod Llywelyn ap Hywel ab Ynyr wedi etifeddu tir ei dad yn *Maestom*. Mae Geraint Gruffydd wedi awgrymu mai llygriad yw hyn o *Maestran*, lleoliad a grybwyllir yn ‘Yr Eos’ (15.45) (Williams 2001: 541 n226). Dangoswyd mai tref ddegwm ym mhlwyf Llanycil ym Mhenllyn yw Maestran, ac felly nid yw nepell o’r Eithinfynydd ger Llanuwchllyn (Thomas 1954–6: 103–4).

Ategir y cysylltiad â Meirionnydd a disgynyddion Ynyr gan linell yn ‘Cystudd y Bardd’ sy’n dweud am Forfudd: ‘Hon o Ynyr ydd henyw’ (103.27). Roedd mwy nag un Ynyr yn hynafiad cydnabyddedig i deuluoedd yn y cyfnod hwn, gan gynnwys Ynyr Gwent ac Ynyr Iâl. Ond yr Ynyr enwocaf, ond odid, oedd Ynyr Nannau, neu Ynyr Hen ap Meurig, a oedd yn ei flodau yn hanner cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg (WG1 ‘Bleddyn ap Cynfyn’ 47). Cyfeirir at ei fab yntau Ynyr Fychan yn aml gan y beirdd a ddeuai i Nannau ym Meirionnydd mewn cenedlaethau diweddarach. Gwnaeth hyn i lfor Williams ddadlau mai un o deulu Nannau oedd Morfudd (DGG² 177), a chytunwyd mai at Ynyr Nannau y cyfeirir gan Parry (GDG 524), Bowen (1960–1: 38), Rowlands (1960–1: 107), a Williams (2001: 541). Yn sicr, mae Eithinfynydd Ardudwy mewn ardal a gysylltir â theulu Nannau. O chwilio ymhlith disgynyddion Ynyr, gwelir bod o leiaf un Forfudd yn y teulu, yn ferch i Hywel ap Meurig Fychan ab Ynyr Fychan ab Ynyr ap Meurig (WG1 ‘Bleddyn ap Cynfyn’ 50). Roedd hi’n gyfnither i’r bardd Llywelyn Goch ap Meurig Hen, ac amcangyfrif Bartrum yw iddi gael ei geni tua 1370. Ond mae hynny braidd yn hwyr ar gyfer cydoeswr i Ddafydd.

Ac eithrio Morfudd, y ferch a enwir amlaf gan Ddafydd yw **Dyddgu**. Fe’i henwir mewn naw cywydd: ‘Yr Iwrch’ (46), ‘Dyddgu’ (86), ‘Caru Merch Fonheddig’ (87), ‘Gwahodd Dyddgu’ (88), ‘Dagrau Serch’ (89), ‘Achau Hiraeth’ (90), ‘Y Gainc’ (91), ‘Dyddgu a Morfudd’ (92), a ‘Dewis Un o Bedair’ (120), ac mae Gruffudd Gryg yn cyfeirio ati yn ei drydydd cywydd ymryson (27.48, 51). Y mae’r cywydd ‘Dyddgu’ yn cyfeirio’n uniongyrchol at ei thad, gan ei alw’n ‘leuan / lawnfab Gruffudd ... / Fab Llywelyn ... / Llwyd’ (86.1–4). Ceir yr enw leuan ap Gruffudd ap Llywelyn yn ach cangen o ddisgynyddion Tewdwr Mawr (WG1 ‘Tewdwr Mawr’ 1), a chadarnheir yr uniaethiad hwnnw gan gyfeiriad yn ‘Dagrau Serch’ at y ffaith fod Dyddgu yn hanfod

'o Dewdwr lwyth' (89.40). Ymddengys o'r cywydd 'Yr Iwrch' (46.28) fod cysylltiad rhwng teulu Dyddgu â'r Tywyn ym mhlwyf y Ferwig ger Aberteifi, lleoliad yr oedd gan Ddafydd yntau gysylltiadau eg ef (gw. uchod). Nododd Thomas Parry ambell gyfeiriad pellach a all fod yn berthnasol i'r teulu hwn (GDG xlv). Cofnodwyd bod gŵr o'r enw Ieuan ap Gruffudd ap Llywelyn yn un o reithwyr tir Esgob Tyddewi yng Ngheredigion yn 1292 (Jones 1948–50: 220), a bod gŵr o'r un enw wedi tyngu llw yn 1326 parthed hawliau Esgob Tyddewi ar dir yn Llanddewibrefi (BBStD 196). Roedd merch o'r enw 'Duthgu filia Ieuan' yn dal tir bwrtais yn Atpar yn 1326 (BBStD 222). Ond gan fod yr enwau hyn yn ddigon cyffredin, mae'n anodd eu huniaethu'n hyderus â theulu Dyddgu'r farddoniaeth. Nid enwir merch o'r enw Dyddgu yn achau'r teulu, er y nodir mai Morfudd oedd enw unig blentyn Ieuan! Awgryma Bartrum fod Ieuan ap Gruffudd ap Llywelyn yn fyw yn 1387 ar sail cyfeiriad tybiedig ato yn un o siarteri Eglwys Ioan, Caerfyrddin (WG1 'Tewdwr Mawr' 1; Phillips 1865: 49). Tuedda hynny i awgrymu bod Dyddgu yn iau na'r disgwyl. Ond mae'r ddogfen dan sylw yn ymwneud ag eglwys Llanfihangel Rhos-y-corn, sydd gryn bellter o'r Tywyn. Gan hynny, gwell tybio mai Ieuan ap Gruffudd ap Llywelyn arall yw'r un a oedd yn fyw yn 1387, ac nad efe oedd tad Dyddgu.

Enwir Morfudd a Dyddgu gyda'i gilydd yn y cywydd 'Dewis Un o Bedair', ynghyd â merch arall a elwir yn **Elen**, 'Gwraig, rhyw benaig, Robin Nordd' (120.16). Fel yr awgrymodd David Jenkins, gellir uniaethu **Robin Nordd** â'r 'Robert le Northern' a enwyd yn yr achos llys yn 1344 yn sgil lladrata cwpan arian oddi arno (1935–7: 145; gw. uchod). Ymddengys o'r cywydd fod Elen yn masnachu gwlân, a gall mai dyna oedd bywoliaeth ei gŵr yntau. Saesnes ydoedd yn ôl pob golwg, yn wahanol i'r merched eraill a enwir yn y gerdd—Morfudd, Dyddgu a'r ferch arall ddienw. Roedd Robin yn ŵr o gryn statws ac yn fwrtais yn Aberystwyth, ac fe'i gelwir yn 'Robertus de Northern Ballivi' mewn rhestr o wŷr a dyngodd lw o ffyddlondeb i'r Tywysog Du yn 1343. Dengys y cofnod i Robin wasanaethu'n un o ddau feili Aberystwyth rhwng gwyliau Mihangel 1342 a 1343 (OD clvii; Bowen 1972–4: 26). Ymddengys felly ei fod ef, fel y Bwa Bach, yn ŵr o gryn barch yn lleol.

Enwir ambell ferch arall gan Ddafydd, ond mae'n anodd gwybod a yw'r rhain yn ferched go iawn fel Dyddgu ac Elen Nordd. Enwir **Efa** yn y cywydd 'Angof' (121), ac mae cywydd 'Y Cusan' (83) wedi ei gyfeirio at ferch a elwir yn **Luned**. Nid oedd hwn yn enw poblogaidd yng nghyfnod Dafydd, felly gall mai cymharu'r ferch â'r Luned sy'n gymeriad yn chwedl *Owein* a wneir yma (83.16n).

Yn yr un cywydd cawn gyfeiriad at unigolyn arall sydd o gymorth wrth geisio lleoli Dafydd a'i gylch cydnabod. Enwa'r gerdd *ŵr o'r enw 'Turel'*:

Cyd cefais, ddirais ddwydrin,
Heiniar mawl, hwn ar 'y min,
Trysor ym yw, trisawr mêl,
Teiroch ym os caiff Turel,
Ac os caiff hefyd, bryd brau,
Mursen fyth, mawrson fwythau.
Ni bu ddrwg, ei gwg a gaf,
Lai no dwrn Luned arnaf. (83.37–44)

Mae'n amlwg fod y *gŵr* hwn yn dra hysbys yn nyddiau Dafydd, er nad yw'r enw'n un cyfarwydd bellach. Cafwyd dau awgrym gwahanol am y 'Turel' hwn. Tynnodd D.J. Bowen sylw at *ŵr o'r Jean Tyrel*, arglwydd Poix yn Ffrainc yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg. Enillodd ef achos cyfreithiol yn 1359 pan ddyfarnwyd bod pridwerth am gastell y dref yn ddyledus i Edward III. Gall fod yr hanes wedi cyrraedd Dafydd a'i gynulleidfa:

Tyrel a enillodd adeg yr anghydfod uchod, ond medd Dafydd ap Gwilym 'Teiroch ym os caiff Turel' y cusan a oedd yn fond—'mewn tabliad dwbl'—rhyngddo ef a'i gariad 'Ffrengig ffrw': efallai ei fod yn meddwl yma am ryw *ŵr eiddig ... [Yr oedd] ansicrwydd ai dan gri Navarre ynteu Sain Siôr y cipiwyd castell Poix, ond enillwyd y cusan dan gri gwawd diamheuol y bardd ac ef bioedd y gwmpasgaer* (1972–4: 29).

Fodd bynnag, awgrym Ifor Williams (1913–14: 203–4) oedd mai *gŵr o'r enw Hugh Tyrel* oedd 'Turel' Dafydd, dadl a dderbyniwyd gan Thomas Parry (GDG lvi) a Geraint Gruffydd (1992: 435). Roedd Hugh yn fab i Roger Tyrel, *gŵr a ddaliai diroedd yn siroedd Henffordd ac Amwythig* (Cole 1963: 42). Ar 30 Rhagfyr 1330, cyflwynodd y brenin gestyll Bwlchydinas a Blaenllyfni i'w feddiant, yn ddiolch am wasanaeth

ffyddlon (CFR 1327–37, 22). Daeth rhagor o rym yng Nghymru iddo yn 1334. Pan fu farw Edmwnd Mortimer o Wigmore yn 1331, nid oedd ei fab Roger (1328–60) ond bachgen bychan, ac felly aeth ei diroedd i ofal ei hen nain, Margaret de Fienne, gweddw Edmund Mortimer (m. 1304). Pan fu farw hithau yn 1334, rhoddwyd ei thiroedd gweddwol yng ngofal yr Hugh Tyrel hwn. Roedd y rhain yn cynnwys Gwerthrynion a Cheri a maenoriau Trefyclo, Llanandras, Maesyfed, a Pembridge. Drwy hyn, mewn byr o dro, daeth Hugh Tyrel yn ffigwr pwysig yn y Mers. Cadwodd y tiroedd am saith mlynedd cyn derbyn gorchymyn i'w dychwelyd i deulu Mortimer ar 2 Tachwedd 1341 (CFR v, 246), a bu farw yn Llydaw ar 28 Ionawr 1343 (CIPM 1337–47, 297–9). Yn 1339 daeth i wrthdrawiad â Phillip de Clanvow, Cymro a oedd â chyswllt agos â theulu Mortimer, pan gwynodd Phillip nad oedd Tyrel wedi trosglwyddo iddo gyflenwadau o frethyn y credai Phillip eu bod yn ddyledus iddo (CIM 1307–49, 404). Mae cysylltiadau Cymreig Tyrel yn ei gwneud yn bur sicr mai ef yw'r gŵr a enwir gan Ddafydd, yn hytrach na'r Ffrancwr Jean Tyrel. Gellir bellach nodi darn ychwanegol o dystiolaeth o blaid hynny, sef y ffaith i Hugh Tyrel arwain 114 o ddynion o diroedd y brenin yn y Mers ar gyrch Edward III yn erbyn yr Alban yn 1334–5 (Prince 1931: 355n1).

Arweinydd y fintai fwy niferus a ddaeth o Ddeheubarth bryd hynny oedd **Rhys ap Gruffudd**. Enwir Rhys yn y cywydd 'I Ddymuno Lladd y Gŵr Eiddig' (116), lle y mae'n arwain mintai o filwyr o Gymru i ymladd yn Ffrainc, ac mae ei gysylltiad â Tyrel yn ymgyrchoedd milwrol 1334–5 yn dod â'r olaf yn agos iawn i gylch cydnabod Dafydd. Roedd Rhys ap Gruffudd ap Hywel ap Gruffudd ab Ednyfed Fychan o Lansadwrn (c. 1283–1356) yn berthynas i Ddafydd ac yn un o uchelwyr pwysicaf ei gyfnod. Yn ogystal ag arwain milwyr o Gymru ar ran y Goron, bu'n ddirprwy ustus Tywysogaeth De Cymru deirgwaith (PWLMA 99–102). Roedd hefyd yn noddwr pwysig i'r beirdd, a gall mai er moliant ac anrhydedd iddo ef y paratôdd Einion Offeiriad ei ramadeg barddol (GEO 3–4). Bu farw yng Nghaerfyrddin ar 10 Mai 1356 a'i farwnadu gan Iolo Goch (GIG cerdd VII) ac efallai hefyd gan fardd o'r enw Gruffudd (?Llwyd ap Llywelyn Gaplan; GMBen cerdd 17).

Y cymeriadau amlycaf yng ngwaith Dafydd, ac eithrio'r cariadon, yw ei gyd-feirdd. Ac fel y dengys ymryson Dafydd a **Gruffudd Gryg**, roedd y cyd-feirdd hyn hefyd yn ymddiddori yn ei hanesion carwriaethol yntau. Roedd Gruffudd (bl. c.1340–1380) yn fab i Gynwrig ap Gruffudd o Dregwehelyth, Llantrisant, Môn, a bu'n rhingyll cwmwd Malltraeth yn 1357–8 (Carr 1982: 22). Mae'r epithet 'Gryg' yn cyfeirio at ryw nam ar ei leferydd, ac y mae Dafydd yn gwneud yn fawr o hynny yn yr ymryson rhwng y ddau. Cadwyd amrywiaeth o gerddi yn enw Gruffudd (oddeutu dwy ar bymtheg), gan gynnwys cerddi serch nid annhebyg i rai Dafydd. Ymhlith ei gerddi eraill y mae cerddi mawl a marwnad i uchelwyr Môn ac Arfon, a thri chywydd sy'n ymwneud â phererindod i Santiago de Compostela. Canodd hefyd farwnad enwog i Ddafydd, a chywydd am yr ywen uwch ei fedd yn Ystrad-fflur (GDG 427–8 a 429–30). Canodd Dafydd farwnad iddo yntau, a honno'n enghraifft o arfer y beirdd o ganu 'ffug' farwnadau i'w gilydd, fel y gwelir yn achos Gruffudd ab Adda a Madog Benfras (gw. isod).

Beirdd eraill a ganod farwnadau i Ddafydd oedd Iolo Goch (GIG cerdd XXI) a Madog Benfras (GMBen cerdd 4). Ac eithrio Dafydd ap Gwilym, y mae'n debyg mai **Iolo Goch** oedd Cywyddwr pwysicaf y bedwaredd ganrif ar ddeg. Hanai o arglwyddiaeth Dinbych, a dangosodd Dafydd Johnston y gellir dyddio ei ganu i'r cyfnod 1345–97 (GIG xix). Awgrymwyd gan Gruffydd Aled Williams iddo ganu cywydd i Owain Glyndŵr yn ystod ei wrthryfel, ac os felly rhaid ei fod wedi byw hyd ddechrau'r bymthegfed ganrif (2000: 39–73). Mae'n amlwg i yrfa Iolo a Dafydd gydoesi am ryw hyd, ond mae'n debyg fod Iolo yn iau na'r bardd o Geredigion. Er bod Iolo yn hael ei ganmoliaeth i awen Dafydd yn ei farwnad iddo, nid yw'r gerdd yn un bersonol ei naws, ac felly gall nad oedd y ddau fardd yn gyfeillion agos (GIG 304).

Yn ogystal â chael ei farwnadu ganddo, canodd Dafydd yntau farwnad i **Fadog Benfras** (20). Mab i Ruffudd ab Iorwerth, arglwydd Sonlli ym Maelor, oedd Madog (GMBen 11–22). Fe'i henwir yng nghywydd 'Anrhegion Madog, Iorwerth a Dafydd' (19) a hefyd yn 'Yr Eos' (155). Ceir tystiolaeth gyfoes am Madog (a'i frawd Ednyfed) yng nghofnodion llys Wrecsam a'r cylch, fel y nododd A.N. Palmer:

Madoc and Ednyfed are repeatedly mentioned in these records of court. In one case they prosecuted David ap Howel for trespass and for cutting twigs upon their land, the defendant being found guilty, and fined twelve pence. In another case the lord assigns them three roods of land in Morton in place of three roods of their own land wasted in iron mining. In a third case Madoc Benfras is defendant, with others, in a plea concerning agreement. Finally, this same Madoc sues Einion ap David for one meill of corn, and wins his case ... Griffith ap Iorwerth, the father ... was at this time dead; but his widow, Gwenhwyfar ferch Madoc, was still living, and is described as appearing in court and acknowledging herself indebted to Stephen of the Green in the sum of twenty-nine shillings and two pence' (1888, 261)

Gwelir o hyn nid yn unig fod Madog mewn oedran gŵr erbyn 1339–40, ond ei fod hefyd yn ŵr lled gyfoethog. Priodolir saith o gerddi iddo yn y golygiad diweddaraf o'i waith, gan gynnwys rhai sy'n ddigon tebyg i rai o gerddi Dafydd, ac yn arbennig felly 'Cywydd y Drych' (GMBen cerdd 1).

Mae'r cywydd 'Anrhegion Iorwerth, Madog a Dafydd' (19) hefyd yn enwi'r bardd **Iorwerth ab y Cyriog**. Gellir bod yn bur sicr fod Iorwerth yn fab i'r bardd Gronw Gyriog, ac yr un mor sicr mai Gronw yw'r gŵr a enwir mewn cofnodion swyddogol sydd yn ei leoli yn Llanelian yng ngogledd-ddwyrain Môn yn 1317 (GGrG 4). Roedd yntau'n fardd, a chadwyd dwy awdl o'i eiddo, y naill i Fadog ab Iorwerth o Goedymynydd, sir Fflint (a ganwyd wedi 1328) a'r llall i Wenhwyfar ferch Madog, gwraig Hywel ap Tudur ap Gruffudd o Goedan, ym mhlwyf Llanfechell ym Môn (GGrG cerddi 1 a 2). Gan hynny, mae'n rhesymol tybio mai un o Fôn oedd Iorwerth ab y Cyriog yntau (GGrG 35–7), a chyfeiria Sefnyn at alar beirdd Môn yn ei farwnad iddo (GSRh 2.75). Tair cerdd yn unig a gadwyd y gellir bod yn weddol hyderus eu bod yn waith Iorwerth. Un ohonynt yw'r cywydd 'I ddiolch am gae' (GGrG cerdd 5), sef y cywydd sydd i'w gysylltu â chywydd Dafydd 'Anrhegion Iorwerth, Madog a Dafydd' (19). Ceir gan Iorwerth un awdl 'I Dduw', ac un awdl 'I Efa', merch o Feirionnydd (GGrG cerddi 3 a 4).

Yn ogystal â Gruffudd Gryg a Madog Benfras, y trydydd bardd a farwnadwyd gan Dafydd oedd **Gruffudd ab Adda**. Bardd na wyddys llawer amdano yw hwn. Canodd gywydd enwog 'I'r Fedwen yn Bawl Haf' sy'n cyfeirio at dref Llanidloes

(BBGBDd cerdd 45). Gan hynny, awgrymwyd mai un o Bowys Wenwynwyn (sef de Powys) ydoedd, ond ni ellir bod yn sicr.

Gall mai awdl Dafydd i **Rys Meigen** (32) yw cerdd ddychan enwocaf yr iaith. Ond prin iawn yw'r wybodaeth sydd gennym am Rys, ac eithrio awdl Dafydd a thystiolaeth y llawysgrifau am amodau ei chyfansoddi. Yn Peniarth 49 (sy'n gopi o'r Vetustus), ceir y nodyn canlynol ar ei diwedd:

yr Englyn or blaen a ganwyd ar geinaw Ddyw nadalig ym-mhlas lln' ap GIm'
Vychan ap GIm' ap Gwrward yn Neheubarth, A Dafydd a wnaeth yr owdl or
blaen i Rys Meigen ac ai canodd yn i wydd, ac ynte a syrthiodd yn farw, os
gwir a ddywedant.

Yr englyn y cyfeirir ato (o'i ddiweddarau) yw hwn:

Dafydd gau merydd gi mall,
Tydi fab y tadau oll,
Gwenais dy fam, gam gymell,
Uwch ei thin, och, yn ei thwll.

Y traddodiad yw bod Rhys wedi sarhau mam Dafydd â'r englyn uchod yn llys Llywelyn ap Gwilym (gwrthrych cerddi 5 a 6) a'i fod wedi syrthio'n farw ar glywed ymateb Dafydd. Ceir lled-gyfeiriad at ddigwyddiad o'r fath gan Ruffudd Gryg, pan ddywed: 'Mogel, nid mi Rys Meigen' (27.66), ac yn ateb Dafydd: 'Mogel di fod . . . yn Rhys wyrfarw . . . a las â gwawd' (28.58–60). Ond oherwydd yr elfen chwareus gref yn yr ymrysonau, ni ddylid rhoi gormod o goel ar hyn, ac nid amhosibl mai'r ymryson ei hun yw ffynhonnell eithaf y nodyn a oedd yn y Vetustus. Ceir cyfres ddiweddarach o benillion sy'n cysylltu Dafydd a Rhys, ond mae'n annhebygol eu bod yn perthyn i'r bedwaredd ganrif ar ddeg (Cerddi'r Apocryffa, rhif A5).

Yr unig awgrym a gawn am gefndir Rhys Meigen yw ei enw. Mae Meigen yn enw ar fro ger y Trallwng ym Mhowys (GDG lxxi), ac mae'n debyg mai brodor o'r ardal honno oedd Rhys. Ond fel y nododd Parry, mae bryn o'r enw Bryn Meigen i'w gael yng nghwmwd Creuddyn yng Ngheredigion, ac mae hefyd nant o'r enw Meigan i'w gael yng ngogledd sir Benfro, fel y tystia'r enwau ffermydd Dyffryn Meigan, Pistyll

Meigan a Phenlanfeigan rhwng Boncath ac Eglwyswrw. Mae'r lleoedd olaf hyn, wrth gwrs, yn nes at gynefin Dafydd nag y mae Meigen Powys.

Mae Dafydd hefyd yn enwi nifer o unigolion nad oes modd inni bellach olrhain fawr ddim o'u hanes, ac mae'n debyg mai beirdd isel eu statws yw nifer ohonynt. Yn eu plith ceir **Madog Hir** ac **Einion Dot** sy'n ymddangos yn y cywydd 'Sarhau ei Was', cerdd sydd wedi ei lleoli yn Niwbwrch ym Môn (74.58, 60), a'r **Robert** a'r **Hywel Fychan** sy'n ymddangos yn 'Y Llwyn Celyn' (40.22, 23). Un arall yw'r bardd **Tudur ap Cyfnerth** a enwir yn ail gywydd ymryson Dafydd (26.16). Y mae'n debyg mai ef yw'r gŵr o'r enw sy'n ymddangos mewn achosion o ddyled yn rholiau llys Caernarfon yn 1361 (Jones ac Owen 1951: 16). Enw a gysylltir â haenau is cymdeithas oedd Cyfnerth erbyn y cyfnod hwn, ac ymddengys mai bardd eilradd oedd Tudur yntau.

Down yn olaf at noddwyr Dafydd. Canodd Dafydd ddwy awdl fawreddog i **Llywelyn ap Gwilym** ap Rhys ap Llywelyn ab Ednyfed Fychan (WG1 'Marchudd' 7), y naill i'w ganmol a'r llall i'w farwnadu yn sgil ei farwolaeth annhymig (5 a 6). Ceir cyfeiriad enwog ato fel 'fy ewythr' (6.61), ac fe'i geilw Dafydd ei hun yn 'nai' iddo (6.53 a 63). Credid ar un adeg ei fod yn frawd i Wilym Gam, tad Dafydd (GDG xxvii), a pherthynas â'r ochr honno i'r llinach a geir yn y nodyn ar waelod copi Peniarth 49 o'r awdl ddychan i Rys Meigen (gw. uchod). Ond gallai 'ewythr' a 'nai' gynt fod ag ystod eang o ystyron, ac nid oes rhaid i'r berthynas fod yn agos iawn. Un posibilrwydd, fel y gwelwyd eisoes, yw bod Llywelyn yn frawd i fam Dafydd, Ardudful. Fel arall, rhaid tybio fod Dafydd yn ei alw'n ewythr yn sgil ei gysylltiad â llinach Ednyfed Fychan (gw. uchod).

Roedd Llywelyn yn wŵr o gryn ddylanwad yn ystod pedwardegau'r bedwaredd ganrif ar ddeg, a thrafodwyd yr hyn a wyddys amdano gan D.J. Bowen (1994–5: 365–8). Gwelir o'i ach ei fod fel Rhys a Gruffudd (gw. uchod) yn ddisgynnydd uniongyrchol i Ednyfed Fychan. Roedd ei wraig Nest Fechan yn chwaer i Rys (WG1 'Marchudd' 14), a gwelwyd eisoes fod Gwrwared ap Gwilym, hen hen hen daid Dafydd, wedi priodi Gwenllian ferch Ednyfed Fychan.

Daw'r cyfeiriad cyntaf at Llywelyn ap Gwilym o 1342–3 pan aeth yn feichiafon dros Robert Clement o Bennardd am ddyled o ddecpunt (PWLMA 105, dan yr enw 'Llywelyn ap William'). Yn 1343, tyngodd Iw i'r Tywysog Du fel cwnstabl Castellnewydd Emlyn, beili'r dref a dirprwy-rysyfwr yr arglwyddiaeth (Lloyd 1935–7, 3; OD clviii; PWLMA 105, Walker 1992: 42). Nodir ei fod yn dal y swyddi hyn fel dirprwy i Syr Gilbert Talbot, a ddaliai arglwyddiaeth Emlyn o 1343 hyd ei farwolaeth (Bowen 1994–5: 367). Yn 1344–5, ef oedd dirprwy-brifustus de Cymru o dan brifustusiaeth Talbot (PWLMA 105).

Bu farw Gilbert Talbot yn Chwefror 1346, a meddiannwyd arglwyddiaeth Emlyn gan Syr Richard de la Bere. Gall mai yn sgil hyn y bu farw Llywelyn. Yn sicr, roedd y castell wedi dirywio dan ei ofal a gall fod hynny wedi arwain at anghydfod â Syr Richard, y bu'n rhaid iddo wariodd symiau sylweddol ar ei atgyweirio (Walker 1992: 42). Ond fel y nododd D.J. Bowen, yn yr oes gythryblus hon gall mai 'cweryl teuluol gwaedlyd' a fu'n gyfrifol am ddod ag oes Llywelyn i ben (1994–5: 368).

Yn yr awdl foliant cyfeirir at lys dienw yn Emlyn, ond yn y farwnad enwir dau o lysoedd Llywelyn, sef y Ddôl Goch (6.117) a'r Llystyn (6.56). Ys dywed D.J. Bowen, 'safai'r Ddôl-goch yn y bach a ffurfir lle y mae'r afon Fargod yn llifo i Deifi, ar dir a elwir y Parc Coch, sef safle plas Llysnewydd heddiw' (Bowen 1994–5: 367). Dyma'r llys yn Emlyn, nid nepell o'r Cryngae, y tŷ y cysylltid y teulu ag ef mewn cenedlaethau diweddarach (Jones 1994 [1899]: 99; GDG xxviii). Ym mhlwyf Nanhyfer yn arglwyddiaeth Cemais yr oedd y Llystyn, a cheir fferm o'r enw yno hyd heddiw (SN080306). Nid syndod felly mai yn Llandudoch yn yr un arglwyddiaeth y claddwyd Llywelyn (6.138).

Noddwr enwocaf Dafydd oedd **Ifor Hael**, a chanodd Dafydd saith o gerddi iddo (11–17). Ei enw'n llawn oedd Ifor ap Llywelyn ab Ifor ap Llywelyn (WG1 'Cydifor Fawr' 16). Priododd â **Nest** ferch Rhun (WG1 'Bleddyn ap Cynfyn' 56). Ond fel yn achos y bardd ei hun, ni chafwyd hyd i unrhyw gyfeiriad ato mewn cofnodion cyfoes. Dywed G.T. Clarke iddo farw yn 1361, ond ni wyddys ar ba sail (1886: 329). Credai

Lewys Glyn Cothi mai'r bardd oedd y cyntaf i farw: 'Aeth Dafydd gwawdydd drwy gôr / i nefoedd o flaen Ifor' (GLGC 202.44), ond os cywir hyn y mae'n rhaid ffug farwnad yw'r un a ganodd Dafydd i Ifor a Nest (17). Mae'n debyg mai tad Ifor oedd y Llywelyn ab Ifor a oedd yn grwner yn rhan ddeheuol arglwyddiaeth Gwynllŵg neu Gasnewydd ar y cyd â gŵr o'r enw Hywel ap Madog yn 1314–5 (Reeves 1979: 105). Mae awdl Dafydd i Ifor (11) yn llawn delweddau morwrol (Thomas 1998: 121–2), gan awgrymu bod gan Ifor gysylltiad â diwylliant morwrol bywiog glannau Hafren. Ond ni chafwyd tystiolaeth i gadarnhau hynny.

Gelwyd eisoes wrth drafod 'Dafydd Morgannwg' fod cysylltiad Dafydd â Morgannwg wedi cipio'r dychymyg yn y de ddwyrain. Edrydd Rhys Meurig (neu Rice Merrick, c.1520–1586/7) hanesyn sy'n cloi â chwpled y credai i Ddafydd ei gyfansoddi sy'n cyfeirio at Ifor ac at Syr Matthew Sor, arglwydd Sain Ffagan a Llanbedr-y-fro ym Morgannwg, ond nad yw wedi ei gadw mewn cerdd hysbys: 'Dewr a digrif yw Ifor, / A Sais yw Syr Matho Sor' (Merrick 1983: 58). Dengys nodyn ar ddiwedd copi yn llawysgrif Bangor, Gwynedd 3 o gywydd Gruffudd Llwyd 'I'r haul ac i Forgannwg' (GGLI cerdd 9, ond a briodolir yn Gwynedd 3 i Ddafydd) y credid bod cysylltiad rhwng arhosiad Dafydd ym Morgannwg a'r anghydweld rhyngddo a'r Bwa Bach oblegid Morfudd:

Fe a dalodd gwyr Morganwg iawn i'r Bwa bach am Forfydd, dros Ddafydd ap Gwilym, ac am hynny os gad ffydd y gwnaeth efe y cywydd fry: Ac efe aeth a hi eil-waith, a phan ofynnodd vn iddo, aei efe â hi, a druted fuase iddo? af, heb efe yn enw Duw, a gwyr Morganwg, a dihareb yw er hynny hyd heddyw. (Williams 1931: 140)

Anodd gwybod o ble yn union y tarddodd yr hanesyn hwn, ond sylwer bod rhai llinellau yng nghywydd y 'Y Gwynt' sy'n cyfeirio, o bosibl, at achos llys gan y Bwa Bach yn erbyn Dafydd (gw. nodyn cefndir cerdd 47). Wrth gwrs, mae cerddi Dafydd yn frith o gyfeiriadaeth gyfreithiol, ac ni raid tybio bod achosion gwirioneddol y tu cefn iddynt.

Roedd mam Ifor, Angharad (gwrthrych englyn ansicr ei awduraeth, rhif 167), yn ferch ac etifedd i Forgan ap Maredudd (bl. 1270–1316) ac felly'n ddisgynnydd i Rys ap Tewdwr. Roedd ganddi hi felly, fel ei gŵr Llywelyn a oedd o lwyth Cadifor Fawr, gysylltiadau â'r de-orllewin. Gwrthryfelodd Morgan yn erbyn yr awdurdodau Seisnig yn 1282 ac yn 1294–5, ond nid ymunodd â gwrthryfel Llywelyn Bren (Griffiths 2004: 95). Bu farw yn 1316, a chynhaliwyd *Inquisition Post Mortem* ar ei diroedd yn 1332. Gan fod ganddo dir ym Moduan, Llŷn, cafwyd tystiolaeth o'r ardal honno fod Angharad yn 32 oed. A chan iddi hefyd etifeddu tiroedd yn Amgoed, Pellyniog a Sanclêr, cafwyd tystiolaeth o'r de-orllewin ei bod yn ddeugain oed (CIPM vii, 247). Mae wyth mlynedd o wahaniaeth yma, gyda'r dystiolaeth ogleddol o blaid ei geni tua 1300 a'r dystiolaeth ddeheuol o blaid ei geni tua 1292. Os y gyntaf sy'n gywir, mae'n annhebyg fod Ifor wedi ei eni llawer cyn 1320, ond os yr ail gallai fod wedi ei eni cyn 1310. Ond gan mai un o'r de oedd Angharad, teg tybio mai'r dystiolaeth ddeheuol sydd fwyaf tebygol o fod yn gywir. Wedi marwolaeth Llywelyn, priododd Angharad â Dafydd ap Llywelyn ap Phylip o Rydodyn. Amdano ef y canodd Gruffudd Llwyd yr enwog 'Gywydd y Cwest' (GGLI cerdd 10). Roedd y teulu hwn yn un tra diwylliedig, a brawd i Ddafydd, sef Gruffudd, a gomisiynodd y llawysgrif bwysig Llyfr Ancr Llanddewibrefi yn 1346 (Huws 2000: 239).

Aelod 'o hil Lawdden' (7.26) a drigai yn Uwch Aeron oedd **Ieuan Llwyd ab Ieuan Fwyaf** ab Ieuan ap Rhys ap Llawdden ap Rhys ap Llawdden Hen (WG1 'Llawdden' 2), gwrthrych cerdd 7. Gwelwyd eisoes iddo fynd yn feichiafon dros Hywel ap Goronwy ap Meilyr yn 1344, ar y cyd â'r Bwa Bach. Roedd yn gwnstabl cwmwd Genau'r Glyn yn 1332–3 a 1335–6, yn rif (neu feili) cwmwd Perfedd yn 1351–2 ac yn feili'r un cwmwd yn 1355–6 (PWLMA 529, 453, 449). Cysylltir y teulu â'r Morfa Bychan i'r de o Aberystwyth, ond mewn cenedlaethau diweddarach disgynnyddion Ieuan Fychan, brawd Ieuan Llwyd, a drigai yno. (Canodd Dafydd y Coed i ŵyr Ieuan Fychan, Gruffudd ap Llywelyn ab Ieuan, GDC cerdd 2.) Mae'n debyg mai yng nghwmwd Genau'r Glyn yr oedd cartref Ieuan Llwyd, a bu disgynnyddion iddo yn byw ym mhlwyf Llanbadarn Fawr (WG2 'Llawdden' 2A). Ni wyddys union leoliad ei lys, ond mae'r rhan fwyaf o'r copïau llawysgrif o'r gerdd yn dweud ei fod o Genau'r Glyn, ac mae hynny'n gyson â'r hyn a wyddom amdano.

Marwnad i **Angharad** wraig Ieuan Llwyd ab Ieuan ap Gruffudd Foel o Lyn Aeron (WG1 'Cydfior ap Gwaithfoed' 2) yw cerdd 9. Dywed yr achau iddynt gael pedwar plentyn ar ddeg, gan gynnwys Rhydderch ab Ieuan Llwyd (gwrthrych cerdd 10, gw. isod). Hanai Angharad o linach frenhinol Buellt, ac roedd yn ferch i Risiart ab Einion ap Cynfrig o lwyth Elystan Glodrydd (WG1 'Elystan Glodrydd' 3). Mae'n debyg mai cartref Angharad ac Ieuan oedd tŷ o'r enw Glyn Aeron, a leolid ar safle anhysbys bellach uwchlaw Llangeitho yng nghwmwd Pennardd (GLIBH 6–13). Roedd Ieuan Llwyd yn gwnstabl Anhuniog yn 1332, a thyngodd ef a'i dad Iw o ffyddlondeb i'r Tywysog Du yn 1343 (PWLMA 535, GLIBH 12–13). Roedd hefyd yn noddwr hael i'r beirdd, ac mae'n amlwg i Lawysgrif Hendregadredd fod yn ei feddiant ar un adeg (Huws 2000: 218). Tebyg mai yn ei gartref ef y copiwyd englynion Dafydd ap Gwilym 'I'r Grog o Gaer' i'r llawysgrif, a hefyd gerdd Hillyn iddo. Cadwyd cerddi gan Gasnodyn a Dafydd y Coed iddo yn Llyfr Coch Hergest. Ni wyddys pa bryd y bu Angharad farw (a dylid nodi nad amhosibl mai ffug farwnad yw hon). Mae'n bosibl hefyd mai hon oedd yr Angharad a enwir yn 'Caer Rhag Cenfigen' (122) fel gwrthrych cariad y bardd. Ac mae'n debyg mai yr un Angharad oedd gwrthrych pedwar darn enghreifftiol yn y gramadegau (GEO, Atodiad C, cerddi 11, 12, 29, 36).

Mab i Angharad ac Ieuan Llwyd oedd **Rhydderch ab Ieuan Llwyd** (c.1325–1392x8), y gŵr y canodd Dafydd ffug farwnad iddo ar ran Llywelyn Fychan. Daeth yn un o wŷr cyfraith amlycaf y de-orllewin a hefyd yn un o noddwyr llên amlycaf Cymru. Enwyd y Llyfr Gwyn enwog ar ei ôl a chanwyd ei glodydd gan Lywelyn Goch ap Meurig Hen (GLIG cerdd 4, sy'n awdl i Rhydderch a Llywelyn Fychan ar y cyd), Dafydd y Coed (GDC cerdd 1) ac Iolo Goch (GIG XIV.73–80), a marwnad gan Ruffudd Llwyd (GGLI cerdd 13). Bu'n ddirprwy ustus Ceredigion yng nghyfnod Nicholas Audley yn ustus (1385–90), a chofnodir iddo gynnal llysoedd sirol yng Ngheredigion yn 1386 a 1387. Roedd yn arbenigwr ar Gyfraith Hywel, ac roedd galw am ei wasanaeth fel dosbarthwr yn sir Gaerfyrddin a Cheredigion rhwng 1380 a 1382. Er iddo yn 1389 gael ei gyhuddo o gynnal ffeloniaid a ffoaduriaid yn arglwyddiaeth Llanymddyfri, roedd Audley yn uchel ei barch iddo, gan ddweud ei fod yn ddoeth ac yn wybodus iawn am y gyfraith ac arferion gwlad yng Ngheredigion, a'i fod wedi gweithredu dan

ustusiaid eraill o'i flaen ef (PWLMA 117). Ond i gyfnod cynharach y perthyn y gerdd hon (y pedwardegau efallai), pan oedd yn ei ugeiniau fan bellaf.

Mae'n debyg fod **Llywelyn Fychan** ap Llywelyn Goch ap Llywelyn Gaplan yn gyfyrder i Rydderch (WG1 'Llywelyn Gaplan' 2), er bod peth dryswch yn yr achau. Ceir trafodaeth ar yrfa Llywelyn Fychan ap Llywelyn Goch gan Ralph Griffiths (PWLMA 125), ac ymddengys iddo ddilyn llwybr tebyg iawn i Rydderch. Daliodd nifer o swyddi pwysig, gan gynnwys stiwardiaeth Ceredigion yn 1388, dirprwy ustusiaeth Ceredigion yn 1391–3, a gweithredodd fel siedwr pan ddaliai'r dywysoges Joan a'i hysgutorion y sir yn 1376–8. Cofnodir bod ei wybodaeth o Gyfraith Hywel wedi caniatáu iddo wrthod cyhuddiadau annilys mewn achosion ym Maenordeilo yn 1385–6 ac yn Is Coed yn 1397–8. Roedd tŷ ganddo yng nghwmwd Perfedd erbyn 1399 ac ym Mehefin 1397 fe'i gelwid yn sgwïer i'r brenin. Bu'n driw i'r brenin yn ystod gwrthryfel Glyndŵr, a bu iddo a Thomas Rede fenthyg £400 i'r Tywysog Harri er mwyn amddiffyn Caerfyrddin. Fel Rhydderch, fe'i cyhuddwyd o droseddau yn arglwyddiaeth Llanymddyfri, ond eto fel Rhydderch, fe'i hamddiffynnwyd gan Nicholas Audley. Gan gymryd bod yr uchod oll yn gywir, ac nad oes yma ddrysu rhwng unigolion â'r un enw, y mae'n rhaid ei fod mewn gwth o oedran yn marw. Ond fel yn achos Rhydderch, mae ei hanes yn ŵr ifanc, adeg canu'r cywydd hwn, yn dywyll.

Yr unig eglwyswr ymhlith noddwyr Dafydd oedd **Hywel Deon Bangor** (cerdd 8). Fel y dywed Thomas Parry (GDG lxi), gellir nodi pum ffaith am y gŵr hwn ar sail awdl Dafydd iddo: Hywel oedd ei enw; roedd yn ddeon ym Mangor; roedd ganddo gysylltiad â Môn; ac roedd o 'hil Brân' (8.9). Ond nid mater hawdd yw ei adnabod, gan yr ymddengys i ddau ŵr o Fôn o'r enw Hywel ap Goronwy fod yn ddiaconiaid tua chanol y bedwaredd ganrif ar ddeg.

Yr enwocaf ohonynt yw Hywel ap Goronwy ap Tudur Hen ap Goronwy ab Ednyfed Fychan. Fe'i molwyd gan Ruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed (GSRh cerdd 10), a'i farwnadu gan Ruffudd ap Maredudd ap Dafydd (GGM i, cerdd 1). Fodd bynnag, ni ddisgwylid i un o ddisgynyddion Ednyfed Fychan gael ei alw'n aelod o 'hil Brân', ac felly mai'n annhebyg mai ef yw noddwr Dafydd.

Roedd Hywel ap Goronwy arall yn Ddeon Bangor oddeutu 1350 (Roberts 1969: 192n7). Awgrymodd Thomas Parry mai hwn oedd gwrthrych awdl Dafydd (GDG lxi–lxiv). Fe'i dyrchafwyd yn esgob yn 1370 a bu farw y flwyddyn ganlynol yn Rhufain. Yn y golygiad presennol, hola Huw M. Edwards ai mab (nas nodir yn yr achau am na fu plant iddo) ydoedd Hywel i Oronwy ap Maredudd o Dyddyn Adda. Roedd Goronwy yn disgyn o Lywarch ap Brân (WG1 'Llywarch ap Brân' 2), ac felly addas fyddai galw ei fab yn un o 'hil Brân'.

3. 'Hudol yw hoedl i lawer': dyddiadau Dafydd ap Gwilym

Er gwaethaf yr holl wybodaeth a gasglwyd uchod, gwaith anodd iawn yw pennu union gyfnod oes Dafydd ap Gwilym. Yn wir, prin fod unrhyw gerddi y gellir eu dyddio'n fanwl gywir. Ar y llaw arall, mae'r dyddiadau a gysylltir ag unigolion megis Llywelyn ap Gwilym, Hugh Tyrel ac Ieuan Llwyd ab Ieuan Fwyaf yn tueddu i awgrymu bod Dafydd yn weithgar tua phedwardegau'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Yn wir, mae'n ddigon dichonadwy fod ei holl ganu yn perthyn i'r degawd hwnnw. Mae'r adran o 'Caer Rhag Cenfigen' (122) sydd fel petai'n cyfeirio at warchae Calais yn ateg i hynny:

Ef a roed Duw, nawddfoes nawd,
Gaer i'm cadw, gwiwrym ceudawd,
Cystal, rhag ofn dial dyn,
Â'r Galais rhag ei elyn ... (122.16–20).

Daeth y gwarchae ar Calais i ben yn 1347, ac os at hynny y cyfeirir yma, mae'r cydfynd yn burion â'r hyn a wyddom am gyfnod Dafydd. Yr unig dystiolaeth bwysig a all fynd yn groes i hynny yw dyddiad cywydd 'Y Cloc' (cerdd 64), gan na cheir tystiolaeth fod clociau o'r fath ar gael yn y 1340au. Ond mae cryn amheuaeth ai Dafydd oedd awdur y cywydd hwnnw (gw. y nodyn cefndir), ac felly nid yw tystiolaeth 'Y Cloc' yn mynnu ein bod yn derbyn i Ddafydd fyw i'r 1380au.


Awgrym Geraint Gruffydd oedd i Ddafydd gael ei eni tua 1315 (neu ychydig ynghynt), ac iddo farw tua 1350, efallai o ganlyniad i'r Pla Du (1992: 434–5). Ond pwysleisia Gruffydd hefyd nad amhosibl fyddai'r dyddiadau c.1320–70 (1992: 434–5), gan adleisio'r dyddiad a roes Thomas Parry, sef '*fl.1340–70*' (1962: 53). Os yw'r awgrym yn gywir fod 'Yr Adfail' (151) yn dangos effaith y Pla Du, yna mae'n debyg fod Dafydd wedi goroesi ymosodiad cyntaf yr haint ddifaol honno (Bowen 1966–7: 65). Gellid honni bod cywyddau megis 'Morfudd yn Hen' (150) ac 'Y Drych' (132) yn perthyn i gyfnod diweddarach yn oes y bardd, ond eto gallent yn hawdd fod yn gynnyrch dychymyg byw gŵr ifanc (Thomas 2001: xi). Mae'r llawysgrifau ar adegau'n adlewyrchu'r gred fod Dafydd wedi heneiddio cyn marw, fel y gwelir o deitl 'Cystudd Cariad' (82) yn Llanstephan 133: 'Cywydd yn dangos i DG. fyned yn hen ac yn sobr'. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio nad oes unrhyw dystiolaeth bendant i ddangos i Ddafydd oroesi i ail hanner y ganrif, ac mae hynny o dystiolaeth sydd yn awgrymu'n gryf ei fod yn weithgar ym mhedwardegau'r bedwaredd ganrif ar ddeg, os nad cyn hynny.

Awgrym marwnad Iolo Goch (a chymryd ei bod yn ddilys) yw mai marw'n ifanc a wnaeth Dafydd: 'Hudol doe fu hoedl Dafydd, / Hoyw o ddyn pe hwy fai'i ddydd' (GIG XXI.1–2). Dywedodd Saunders Lewis yntau: 'They tell us his life was short. It could not but be so' (1973 [1963]: 163). Ond, fel yn achos disgrifiad David Johns o ymddangosiad y bardd, dyfalu yw hyn ar sail y cymeriad a greir gan y cerddi. Yn y pen draw, rhaid derbyn mai ofer yw holi a oedd y Dafydd ap Gwilym o gig a gwaed yn gydymaith clòs i'r cymeriad gwefreiddiol hwnnw a grewyd ganddo drwy gyfrwng ei farddoniaeth.



©Dylan Foster Evans a Sara Elin Roberts 2007

Teulu Dafydd ap Gwilym



Byrfoddau

- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd, 1921–93*
- Baronia *Baronia de Kemeys, from the original documents at Bronwydd* (London: J. Russell Smith, 1861)
- BBGBDD Dafydd Johnston (gol.), *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg* (d.ll.: Cyhoeddiadau Barddas, 1989)
- BBStD *The Black Book of St David's*, Cymmrodorion Record Series, 5, gol. J.W. Willis-Bund (London: The Honourable Society of Cymmrodorion, 1902)
- BM 29 Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain, BL 14866 [rhif *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, gol. J. Gwenogvryn Evans (18989–1910) yw BM 29]
- CCR Calendar of Charter Rolls
- CDRI Calendar of Documents Relating to Ireland
- CFR Calendar of Fine Rolls
- CIPM Calendar of Inquisitions Post Mortem and other Analogous Documents
- CIM Calendar of Inquisitions Miscellaneous
- CPR Calendar of Patent Rolls
- CR Close Rolls
- DGG² Ifor Williams a Thomas Roberts (gol.), *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr* (ail argr., Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1935)
- GDC R. Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Dafydd y Coed a Beirdd Eraill o Lyfr Coch Hergest* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2002)
- GDG Thomas Parry (gol.), *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1952)
- GDG² Thomas Parry (gol.), *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (ail argr., Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1963)
- GEO R. Geraint Gruffydd a Rhiannon Ifans (gol.), *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1997)
- GGLI Rhiannon Ifans (gol.), *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2000)
- GGM i Barry Lewis (gol.), *Gwaith Gruffudd ap Maredudd, i* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2003)
- GGrG Rhiannon Ifans, Ann Parry Owen, W. Dyfed Rowland ac Erwain H. Rheinallt (gol.), *Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Mab*

- Clochyddyn, Gruffudd ap Tudur Goch ac Ithel Ddu* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1997)
- GIG D.R. Johnston (gol.), *Gwaith Iolo Goch* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1989)
- GLIBH Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1996)
- GLIG Dafydd Johnston (gol.), *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1998)
- GLGC Dafydd Johnston (gol.), *Gwaith Lewys Glyn Cothi* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995)
- GMB J. E. Caerwyn Williams *et. al.* (gol.), *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994)
- GMBen Barry Lewis a Twm Morys (gol.), *Gwaith Madog Benfras ac Eraill o Feirdd y Bedwaredd Ganrif ar Ddeg* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2007)
- GSRh Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (gol.), *Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1995)
- OD *Original Documents*, ed. R.W. Banks, *Archaeologica Cambrensis*, supplementary volume (1877)
- Opera* Giraldus Cambrensis, *Opera*, i, ed. J.S. Brewer (London: Longman: 1861)
- PWDN Thomas Roberts ac Ifor Williams (gol.), *The Poetical Works of Dafydd Nanmor* (Cardiff: University of Wales Press, 1923)
- PWLMA R.A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages*, i (Cardiff: University of Wales Press, 1972)
- RWM i J. Gwenogvryn Evans (gol.), *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, vol. i (London: HMSO, 1898–1905)
- WG1 P.C. Bartrum (gol.), *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff: University of Wales Press, 1974)
- WG2 P.C. Bartrum (gol.), *Welsh Genealogies AD 1400–1500* (Cardiff: University of Wales Press, 1983)

Llyfryddiaeth

- Archif Melville Richards: 'Cronfa Ddata Enwau Lleoedd Archif Melville Richards'
<URL: <http://www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr>> [Gwelwyd 10 Rhagfyr 2007]
- BOWEN, D.J. (1952–3). 'Cyfeiriad at "Ddafydd Morgannwg" ', *Llên Cymru*, 2, 58–9
- (1958–9). 'Dafydd ap Gwilym a Morgannwg', *Llên Cymru*, 5, 164–73
- (1960–1). 'Sylwadau ar waith Dafydd ap Gwilym', *Llên Cymru*, 6, 36–45
- (1966–7). 'Agweddau ar Ganu'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg a'r Bymthegfed', *Llên Cymru*, 9, 46–73
- (1972–4). 'Nodiadau ar Waith y Cywyddwyr', B xxv, 19–32
- (1981–4). 'Dafydd ap Gwilym a Cheredigion', *Llên Cymru*, 14, 163–209
- (1982). 'Dafydd ap Gwilym ac Ifor Hael', *Y Traethodydd*, 137, 29–30
- (1984). 'Lle Claddwyd Dafydd ap Gwilym?', *Barddas*, 89, 7–8
- (1986). *Dafydd ap Gwilym a Dyfed* (Abergwaun: Eisteddfod Genedlaethol Cymru)
- (1994–5). 'Nodiadau ar Waith y Cywyddwyr', *Llên Cymru*, 17, 365–71
- (1995). 'Gwilym Gam ac Ardudful, rhieni Dafydd ap Gwilym', *Barddas*, 224–5, 2-4
- (2003). 'Brogynin', *Dwned*, 9 (2003), 109–10
- BOWEN, E.G. (1979). *A History of Llanbadarn Fawr* (Llanbadarn Fawr: Ysgol Cwmpadarn Centenary Celebrations Joint Committee)
- BROMWICH, Rachel, Thomas PARRY a D.J. BOWEN (1984). 'Ai yn Nhalylychau y claddwyd Dafydd ap Gwilym?', *Barddas*, 87–8, 14–16
- BROWN, O.F. (1982). *The Tyrells of England* (Chichester: Phillimore)
- Calendar of Charter Rolls, Henry III, 1226–1257* (London: HMSO, 1903)
- Calendar of Documents Relating to Ireland, 1252–1284*, ed. H.S. Sweetman (London: HMSO, 1877)
- Calendar of Fine Rolls*, vol. iv, Edward III, A.D. 1327–1337 (London: HMSO, 1913)
- Calendar of Fine Rolls*, vol. v, Edward III, A.D. 1337–1347 (London: HMSO, 1915)
- Calendar of Inquisitions Miscellaneous (Chancery)*, vol. ii, 1307–49 (London: HMSO, 1916)
- Calendar of Inquisitions Post Mortem and other Analogous Documents*, vol. vii, 1–9 Edward III (London: HMSO, 1909)
- Calendar of Inquisitions Post Mortem and other Analogous Documents*, vol. viii, 10–20 Edward III (London: HMSO, 1913)
- Calendar of Patent Rolls, Henry III, A.D. 1266–1272* (London: HMSO, 1913)
- CARR, A.D. (1982). *Medieval Anglesey* (Llangefni: Anglesey Antiquarian Society)

- CLARK, George T. (1886). *Limbus patrum Morganiae et Glamorganiae: being the genealogies of the older families of the lordships of Morgan and Glamorgan* (London: Wyman & Sons)
- Close Rolls of the Reign of Henry III, A.D. 1256–1259* (London: HMSO, 1932)
- COLE, E.J.L. (1963). 'Account of the Keeper of Radnor Castle, 9–10 Edward III', *Transactions of the Radnorshire Historical Society*, 33, 36–42
- DAVIES, Eurig R. Ll. ac Eirian EDWARDS (1982). 'Teulu Ifor Hael a'r Traddodiad Nawdd', tt. 143–56, yn J. E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol*, xii (Dinbych: Gwasg Gee)
- DAVIES, R.R. (1975). 'Cymru yn oes Dafydd ap Gwilym', tt. 58–75, yn John Rowlands, gol. *Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- EDWARDS, J. Goronwy, gol. (1935). *Calendar of Ancient Correspondence Concerning Wales* (Cardiff: University of Wales Press)
- EVANS, D.L. (1925–6). 'Some Notes on the History of the Principality of Wales in the Times of the Black Price (1343–1376)', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 28–34
- GRIFFITHS, Ralph A. (1994). *Conquerors and Conquered in Medieval Wales* (Stroud: Alan Sutton)
- (2004). 'Morgan ap Maredudd (fl. 1270–1316)', t. 95, yn H.C.G. Matthew a Brian Harrison (gol.), *Oxford Dictionary of National Biography*, vol. 39 (Oxford: Oxford University Press)
- GRUFFYDD, R. Geraint (1975–6). 'A Poem in Praise of Cuhelyn Fardd from the Black Book of Carmarthen', *Studia Celtica*, 10–11, 198–209
- (1979–80). 'The Early Court Poetry of South West Wales'. *Studia Celtica*, 14–15, 95–105
- (1990). 'Dafydd ap Gwilym: Trem ar ei Yrfa', *Taliesin*, 71, 25–40
- (1992). 'Dafydd ap Gwilym: An Outline Biography', tt. 425–42, yn Cyril J. Byrne, Margaret Harry a Pádraig Ó Siadhail (gol.), *Celtic Languages and Celtic Peoples: Proceeding of the Second North American Congress of Celtic Studies* (Halifax, Nova Scotia: St Mary's University)
- HAGUE, D.B. (1952–5). 'Brogy nin, Trefeirig', *Ceredigion*, ii, 277–8 (a'r plât yn wynebu 233)
- HUGHES, G.P. a Hugh OWEN, gol. (1951). *Caernarvon Court Rolls 1361–1402* (Caernarvon: Caernarvonshire Historical Society)
- HUWS, Daniel (2000). *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff & Aberystwyth: University of Wales Press & National Library of Wales)
- JENKINS, David (1935–7). 'Enwau Personau a Lleoedd yng Nghwyddau Dafydd ap Gwilym', B viii, 141–5
- (1978). 'Dafydd ap Gwilym yn ei Fro', *Y Traethodydd*, 133, 84–8

- (1992). *Dafydd ap Gwilym a'i Fro* (Aberystwyth: Cymdeithas Llyfrau Ceredigion)
- JONES, D. Stephen (1960–2). 'Fflwring Aur Dafydd ap Gwilym', B, xix, 29–34
- JONES, Francis (1948–50). 'The Subsidy of 1292', B, xiii, 210–30
- (1955). 'Family tales from Dyfed', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1953, 61–83
- JONES, Tegwyn (1960–1). 'Dafydd ap Gwilym a Morgannwg', *Llên Cymru*, 6, 111–12
- JONES, Thomas, gol. (1941). *Brut y Tywysogyon[:] Peniarth MS. 20* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- gol. (1955). *Brut y Tywysogyon or The Chronicle of the Princes [:] The Red Book of Hergest Version* (Cardiff: University of Wales Press)
- LEWIS, E. A. (1923–5). 'The Account Roll of the Chamberlain of West Wales from Michaelmas 1301 to Michaelmas 1302', B, ii, 49–86
- LEWIS, Saunders (1973 [1963]). 'Dafydd ap Gwilym', tt. 159–63, yn Alun R. Jones a Gwyn Thomas (gol.), *Presenting Saunders Lewis* (Cardiff: University of Wales Press)
- LLOYD, J.E. (1935–7). 'Hynafiaid Dafydd ap Gwilym', B viii, 1–3
- LOOMIS, Richard Morgan (1982). *Dafydd ap Gwilym: The poems* (Binghamton, N.Y.: Center for Medieval and Early Renaissance Studies)
- MERRICK, Rice (1983). *Morganiae Archaiographia: A Book of the Antiquities of Glamorganshire*, gol. Brian Ll. James (Barry Island: South Wales Record Society)
- MILES, Dillwyn (1997). *The Lords of Cemais* (Haverfordwest: Cemais Publications)
- MORGAN, Gerald (1995). 'The Landscape of Dafydd ap Gwilym', *Welsh & Breton studies in memory of Th.M. Chotzen* (Proceeding of a Colloquium organized by The A.G. van Hamel Foundation for Celtic Studies, Utrecht-Amsterdam, 23–4 April 1993, Utrecht), 27–35.
- MORGAN, T.J. (1952). *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- PALMER, A.N. (1888). 'Records of the Bailiwick of Wrexham, A.D. 1339 and 1340', *Archaeologica Cambrensis*, pumed gyfres, 5, 258–62
- PARRY, Thomas, gol. (1963). *The Oxford Book of Welsh Verse* (Oxford: Oxford University Press)
- PEATE, Iorwerth C. (2004 [1944]). *The Welsh House* (argr. newydd, Llandysul: Gwasg Gomer)
- PHILLIPS, Thomas, gol. (1865). *Cartularium S. Johannis Baptistae de Carmarthen* (Cheltenham: privately published)
- PRINCE, A.E. (1931). 'The Strength of English Armies in the Reign of Edward III', *The English Historical Review*, xlvi, 353–71
- REEVES, A.C. (1979). *Newport Lordship, 1317–1536* (Ann Arbor, MI: University Microfilms International for Newport Museum and Art Gallery)

- ROBERTS, Enid (1982). 'Dafydd ap Gwilym a Bangor', *Yr Haul a'r Gangell*, Gaeaf, 14–21
- ROBERTS, Glyn (1969). *Aspects of Welsh History*, gol. A.H. Dodd a J.G. Williams (Cardiff: University of Wales Press)
- ROLANT, Eurys (1981). 'Ifor Hael', *Y Traethodydd*, 136, 115–35
- ROWLANDS, Eurys I. (1960–1). 'Dafydd ap Gwilym', *Llên Cymru*, 6, 105–8
- SALISBURY, Eurig (2007). *Ar Drywydd Guto'r Glyn ap Siancyn y Glyn* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru)
- SMITH, Llinos Beverley (1986). 'Cannwyll disbwyll a dosbarth', *Ceredigion*, 10, 229–34
- SPECIAL COLLECTIONS 8/89/4450. 'The National Archives: The Catalogue', <URL: <http://www.nationalarchives.gov.uk/catalogue/displaycataloguedetails.asp?CATLN=7&CATID=-4410791&j=1>> [Gwelwyd 10 Rhagfyr 2007]
- 8/154/7680. 'The National Archives: The Catalogue', <URL: <http://www.nationalarchives.gov.uk/catalogue/displaycataloguedetails.asp?CATLN=7&CATID=-4487185&j=1>> [Gwelwyd 10 Rhagfyr 2007]
- THOMAS, Gwyn, cyf. (2001). *Dafydd ap Gwilym: His Poems* (Cardiff: University of Wales Press)
- THOMAS, Owen (1998). 'Cip ar wryweidd-dra Dafydd ap Gwilym', *Tu Chwith*, 9, 116–25
- THOMAS, R.J. (1942). 'Dafydd ap Gwilym a Cheredigion', *Y Llenor*, xxi, 34–6
- (1954–6). 'Maestran', B xvi, 103–4
- WALKER, R.F. (1992). 'The fourteenth-century surveys of Newcastle Emlyn and the building programme of 1347–8', *The Carmarthenshire Antiquary*, xxviii, 37–50
- WILLIAMS, G.J. ac E.D. Jones (gol., 1934). *Gramadegau'r Penceirddiaid* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- WILLIAMS, Gruffydd Aled (2000). 'Adolygu'r Canon: Cywydd arall gan Iolo Goch i Owain Glyndŵr', *Llên Cymru*, 23, 39–73
- (2001). 'The Literary Tradition to c.1560', tt. 507–628, yn J. Beverley Smith a Llinos Beverley Smith (gol.), *The History of Merioneth*, ii (Cardiff: University of Wales Press)
- WILLIAMS, Ifor (1913–14). 'Dafydd ap Gwilym a'r Glêr', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 83–204
- gol. (1931). *Gwyneddion 3* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)